




**RHAGLEN
L|E|A|D|E|R**

**GWERTHUSO
TERFYNOL**



**GRŴP
GWEITHREDU LLEOL**

**BRO
MORGANNWG**








Adroddiad gan
Ash Futures

Mawrth 2022



LEADER a Strategaeth Datblygu Lleol Bro Morgannwg

Bu LEADER yn agwedd at ddatblygu lleol mewn ardaloedd gwledig. Hon yw'r chweched fersiwn (a'r olaf yn y DU) ers ei chyflwyno gyntaf i raglenni Cyllid Ewropeaidd ym 1992, ac fe'i seilir ar saith egwyddor greiddiol:

-  Mae'n cymryd agwedd seiliedig ar ardal, wedi'i gosod allan mewn strategaeth datblygu lleol
-  Mae'n datblygu o'r gwreiddiau i fyny o ran strategaeth a chyflwyno
-  Mae'n dwyn ynghyd bobl lleol mewn partneriaeth gyhoeddus/preifat/cymunedol i reoli ei gyflwyno – y Grŵp Gweithredu Lleol
-  Mae'n ceisio cael gweithgaredd integredig ac amlsector
-  Mae'n ceisio bod yn arloesol ar y lefel lleol
-  Mae hefyd am geisio cydweithredu gydag ardaloedd LEADER eraill
-  Ac y mae'n ceisio datblygu rhwydweithiau lleol ac annog rhwydweithio.




Mae Strategaeth Datblygu Lleol Bro Morgannwg (SDLI) yn gosod allan strategaeth LEADER a'r agwedd ar gyfer y Fro wledig am gyfnod cyllid strwythurol yr UE 2014-2020. Fe'i paratowyd a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru (LIC) i'w gymeradwyo yn 2014. Mae Cymunedau Gwledig Creadigol (CGC) wedi gweithredu fel llwybr darparu cefnogaeth LEADER yn lleol i weithgareddau prosiect yn y Fro wledig. Cafodd ei reoli a'i hwyluso gan y tîm Cymunedau Gwledig Creadigol sydd wedi cyflwyno LEADER yn y Fro wledig ar ran Grŵp Gweithredu Lleol (GGLI) Bro Morgannwg. Bu Cyngor Bro Morgannwg (Cyngor BM) yn gweithredu fel y corff gweinyddol ac atebol i raglen LEADER. CGC oedd Menter Adfywio Gwledig y Cyngor a bu'n gweithredu fel cyflogwr i'r tîm CGC. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo cyllid cyfatebol sylweddol dros gyfnod cyfredol y rhaglen. Darparwyd gwasanaethau craidd i CGC ar ddim cost.

Y Brîff Gwerthuso

Yr adroddiad hwn yw gwerthusiad terfynol rhaglen LEADER Bro Morgannwg. Mae'n dilyn ymlaen o werthusiad canol-tymor a gynhaliwyd trwy gydol 2019, yn ogystal ag adroddiad etifeddiaeth. O gofio ei sgôp i ddylanwadu ar weddill y rhaglen, y gwerthusiad canol-tymor oedd agwedd fwyaf arwyddocaol y gweithgaredd gwerthuso. Darn byr a chryno o waith oedd y gwerthusiad terfynol hwn, gan ddeall beth a newidiodd wrth i'r rhaglen dynnu at y terfyn ac a yw ar y llwybr iawn i gwrrd â'i thargedau. Yn amlwg, mae hefyd yn adlewyrchu effaith Covid - o gofio fod y pandemig wedi dilyn yn fuan iawn wedi cwblhau'r gwerth canol-tymor.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg lefel-uchel o gynnydd ers y gwerthuso canol-tymor. Ni ddylid ei ystyried fel dadansoddiad dwfn o'r rhaglen yn gyffredinol - y mae'r rhan fwyaf yn y canfyddiadau cyffredinol a'r argymhellion yn y gwerthuso canol-tymor.

Ar y cyfan, mae cyfuniad o'r gwerthuso canol-tymor a therfynol wedi ymdrin â'r pedwar gofyniad craidd fel y'u gosodwyd allan yn y brîff gwerthuso:

-  Gwerthuso sut y bydd gweithgareddau a wneir gan LEADER yn helpu i gyrraedd amcanion cyflwyno'r SDLI
-  Sut y rheolir trefniadaeth, gweinyddu a phrosesau'r GGLI
-  Sut y mae/bydd gweithgareddau yn cyfrannu at gyrraedd amcanion a gweledigaeth strategol y SDLI

- 🌱 Argymhellion fel sail o wybodaeth i unrhyw ddiweddariad o'r SDLI

Seiliwyd yr agwedd gyffredinol at y gwerthuso ar gadwyn resymeg. Efen allweddol sydd wedi tywys y gwerthuso bu'r fframwaith werthuso a ddatblygwyd ar gychwyn y broses.

Mae'r gweithgaredd fu'n sail o wybodaeth i'r gwerthuso terfynol hwn wedi cynnwys:

- 🌱 Adolygiad o wybodaeth ddiweddaraf y rhaglen – gan gynnwys cyllid y rhaglen a Dangosyddion Perfformiad
- 🌱 Adolygiad o brosiectau a gymeradwywyd (ers y gwerthuso canol-tymor) – gan gynnwys dogfennau cais a mantoli
- 🌱 Adolygiad o gofnodion GGLI – i gyfarfodydd a gynhaliwyd ers y gwerthuso canol-tymor
- 🌱 Adolygiad o adroddiadau cau prosiectau
- 🌱 Ymgynghori cyfyngedig – gan gynnwys Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y GGLI, Swyddog Datblygu'r Rhaglen CGC a Swyddog Monitro'r CGC
- 🌱 Sesiwn yng nghyfarfod y GGLI (Mawrth 2022)

2. GWERTHUSO CANOL-TYMOR - CANFYDDIADAU AC ARGYMHELLION

Daeth y gwerthuso canol-tymor yn Hydref 2019 i'r casgliad fod GGLI a CGC wedi gwneud cryn gynydd ar gyflwyno SDLI Bro Morgannwg ar sawl maes. Yn gyffredinol, daeth i'r casgliad fod rhaglen LEADER wedi ei rheoli'n dda, yn effeithiol dros ben ac yn uchel ei pharch.

Ymysg llwyddiannau allweddol yr oedd:

- 🌱 Y rhaglen yn cael ei rheoli'n dda gan dîm CGC ar ran y GGLI. Yr oedd yr adborth a dderbyniwyd gan bartneriaid y prosiect a rhanddeiliaid yn dweud bod enw da iawn i'r tîm CGC (ac yn dal felly) ac mai hwy oedd yn rhoi llawer o'r sbardun am weithgareddau yn y Fro Wledig.
- 🌱 Cafodd rhai enghreifftiau da o weithgareddau y gellid eu hystyried yn arloesol eu datblygu a'u cefnogi. Bu'r GGLI yn agored i gymryd peth risg gyda'r gweithgareddau a gyllidwyd.
- 🌱 Yr oedd cyfran helaeth o gyllid y rhaglen wedi ei neilltuo erbyn 2019, ac yr oedd llawer o hyder y byddai wedi ei ymrwymo'n llwyr a'i wario erbyn i'r rhaglen gau. Rheolwyd y rhaglen yn gadarn gan dîm rheoli rhaglen y CGC, a'i fonitro yn erbyn y proffil disgwylidig.
- 🌱 Yr oedd disgwyl i'r rhaglen ateb Dangosyddion y Rhaglen yn llawn, a gwneud mwy na hynny, erbyn i'r rhaglen gau.

Yn ogystal â'r arsylwadau cyffredinol hyn, yr oedd y gwerthuso canol-tymor hefyd yn cynnwys cyfres o argymhellion. Un o'r agweddau yr oeddem am ymdrin â hwy yn y gwerthuso terfynol oedd deall a gafodd yr argymhellion hyn eu hystyried am weddill y rhaglen. Cafodd yr adolygiad hwn sail o wybodaeth trwy drafodaethau gyda Rhaglen Datblygu Rhaglen CGC. Dangosodd y trafodaethau hyn fod GGLI wedi cynnal gweithdy i drafod argymhellion y gwerthuso canol-tymor ac wedi hynny datblygu Cynllun Gweithredu i ymdrin â hwy. Eto, rhaid gosod hyn yn y cyd-destun mai pandemig Covid-19 oedd y peth amlycaf yn llawer o'r cyfnod ac a effeithiodd ar beth o'r hyn y gellid ei wneud. Adlewyrchir hyn yn y tabl isod.

Argymhelliad Canol-Tymor	Camau Arfaethedig gan y GGLI	Statws
Effeithiolrwydd		
1 I dîm GGLI/CGC fapio prosiectau a gyllidwyd gan LEADER (a'u dyraniadau ariannol) a chyflwyno ehangach yn erbyn amcanion SDLI i ddeall ystod lawn gweithgareddau sy'n cyfrannu i weithgareddau SDLI. Er ein bod yn cydnabod fod hyn wedi ei wneud i raddau helaeth trwy'r Tabl Rhesymeg Ymyriadau, gall fod yn fuddiol ymestyn hyn i gynnwys dyraniadau ariannol a gweithgareddau heb fod yn rhai LEADER.	Cyfoeswyd y Tabl Rhesymeg Ymyriadau i ddangos cydberthynas gliriach rhwng themâu a'r gweithgaredd arfaethedig. Yr oedd hyn hefyd yn cynnwys gweithgareddau nas cyflwynwyd yn benodol trwy raglen LEADER ond lle cyfrannodd y gweithgaredd hwnnw at yr amcan cyffredinol.	Cwblhawyd
2 I ystyried sut i wella/datblygu gweithgareddau sy'n cael eu cyllido eisoes ymhellach fel y gallant gyfrannu ar agenda Dinas Caerdydd, neu o leiaf fod yn glir sut y cymerir yr agenda ymlaen o rywle arall (yn dilyn ymlaen o argymhelliad 1).	Bwriadwyd cynnal adolygiad o agenda Dinas-Ranbarth Caerdydd, a'r bwriad oedd amlygu cyfleoedd lle gallai'r Fro wledig fanteisio ar ddatblygiadau, neu lle gallai GGLI gefnogi cyfleoedd.	Ataliwyd gweithgaredd oherwydd mwy o frys am weithgareddau Covid. Cydnabuwyd hefyd fod llawer o'r gwariant a gynlluniwyd ar gyfer seilwaith mawr. Yn gyffredinol, nid yw agenda Dinas-Ranbarth

		Caerdydd wedi datblygu fel y rhagwelwyd.
<p>3 Ystyried datblygu nifer fechan o fetrigau cyson ychwanegol ar lefel prosiect (fel cynllun peilot) i fesur effaith y prosiect yn well. Er bod adroddiadau cau'r prosiectau weithiau wedi cynnwys mesur y buddiannau, maent yn dueddol o fod yn benodol i'r prosiect ac yn eithaf anodd eu cyd-grynhoi. Gall fod yn ddefnyddiol i CGC asesu a fyddai modd cymhwyso nifer fechan o fetrigau cyson i'r holl brosiectau, y gellid wedyn eu cydgrynhoi i ategu'r DP presennol. Nid ydym yn dweud y dylai'r ymarferiad hwn gymryd gormod o amser, ond gallai asesiad dichonoldeb fod yn fuddiol.</p>	<p>Edrych ymhellach i ddichonoldeb. Ystyried yr holl ddata a ddaliwyd eisoes a phennu a fyddai unrhyw fetrig newydd ar lefel prosiect yn ddefnyddiol.</p> <p>Yr oedd rhai pryderon am yr amser a gymerodd hyn os yw'n golygu edrych yn ôl ar brosiectau gorffenedig yn y rhaglen hon. Os yw ond yn edrych ymlaen at weddill y rhaglen yn realistig, i faint o brosiectau y byddai hyn yn berthnasol ac felly'n ddefnyddiol?</p>	<p>Cafodd hyn ei ystyried, ond teimlwyd nad 'DP' oedd y ffordd orau i gasglu mwy o wybodaeth, ac y byddai'n fwy buddiol gofalu bod adroddiadau cwblhau prosiectau yn adlewyrchu'n fanylach werth pob ymyriad. Pob prosiect i gael 'adroddiad diwedd prosiect'</p>
<p>4 Cynnal a chryfhau'r canolbwynt ar gefnogi *cynaliadwyedd/prif-ffrydio mewn prosiectau cyfredol sy'n cael eu cyllido lle bo hynny'n briodol.</p> <p>*Parhad gweithgaredd/hyd y prosiect</p>	<p>Bod yn fwy gweledol o ran cefnogaeth sydd eisoes yn cael ei roi yn anffurfiol gyda phrosiectau yn y gorffennol a'u buddiolwyr. Integreiddio hyn i strategaeth gyfathrebu newydd.</p> <p>Sicrhau bod unrhyw 'ategolion' i brosiect megis fideo, adroddiadau, lluniau, astudiaethau achos, etc., yn cael eu harchifo'n gywir a'u bod yn hawdd mynd atynt. Bydd hyn yn un o'r tasgau allweddol mewn adolygiad o wefan CGC ac fe'i cynhwysir o bryd i'w gilydd mewn gohebiaeth.</p> <p>Datblygu 'cyfweliad gadael' a strategaeth gyson i gynnwys 'pwyntiau cyffwrdd' gyda buddiolwyr y prosiect (gydag awgrym o bob chwe mis / ymgorffori unrhyw fetrig lefel prosiect fel y'i hawgrymir yn argymhelliad 3 uchod).</p> <p>Edrych i ddichonoldeb cynnwys unrhyw bwyntiau cefnogi/asiantaethau eraill fel rhan o'n gwefan.</p>	<p>Cynyddwyd cyfathrebu eleni, gyda mwy o gyfryngau cymdeithasol yn rhannu cynnwys am brosiectau a chanolbwynt ar gatalogio sgîl-ffeithiau prosiectau, gan gynnwys fideos am brosiectau.</p> <p>Datblygwyd strwythur y wefan newydd gan y tîm, ond nid yw'r cyflwyno wedi dechrau.</p>
Effeithlonrwydd		

<p>1 Edrych eto ar y berthynas, a rolau a chyfrifoldebau, rhwng y prif GGLI a'i is-grwpiau. Y brif nod yw gwella effeithlonrwydd rhwng y ddau grŵp ac efallai y bydd angen mymryn o addasu i bwyslais trafodaethau'r is-grŵp.</p>	<p>Cytunwyd i roi mwy o reolaeth i'r is-grwpiau. Byddai'r is-grwpiau yn delio â'r manylion tra byddai'r prif GGLI yn ymdrin â llywodraethiant, cyllid a goruchwyllo.</p> <p>Enwebu gwirfoddolwr am bob is-grŵp allai gyflwyno yn y GGLI, gan leihau ymwneud swyddogion/cynrychiolwyr cyngor</p>	<p>Cytunwyd ar hyn yn GGLI yn Ch1 2020.</p> <p>Fodd bynnag, ni chynhaliwyd cyfarfodydd is-grwpiau yn 2020 oherwydd Covid felly ni weithredwyd ar hyn.</p>
<p>2 Rhoi gwell 'mecanwaith adborth' i gyfarfodydd Bwrdd GGLI i helpu aelodau i ddeall yn well effaith prosiectau ar lawr gwlad. Yn ddefnyddol, nid tîm CGC ddylai gyflwyno hyn, ond dylai fod yn seiliedig ar gyrrf allanol yn dod i gyfarfodydd ac yn rhoi manylion am yr effaith.</p>	<p>Gwahoddir o leiaf un o noddwyr neu fuddiolwyr y prosiect i wneud cyflwyniad i'r GGLI ym mhob cyfarfod.</p> <p>Cynhyrchir llythyr newyddion GGLI yn dilyn pob cyfarfod o'r GGLI y gellir ei ddsbarthu'n rhwyd gan aelodau GGLI i'w rhwydweithiau (mae'n rhan o strategaeth gyfathrebu).</p> <p>Cyfoesi gwefan CGC wedi pob cyfarfod GGLI, a chynllun cyfryngau cymdeithasol rhagweithiol i amlygu gwaith y gorffennol a'r presennol, a dwyn i mewn noddwyr a buddiolwyr y prosiect (eto, mae hyn yn rhan o strategaeth gyfathrebu).</p> <p>Dylai aelodau GGLI sydd ar y cyfryngau cymdeithasol ddilyn/hoffi/rhannu CGC trwy eu sianeli i gadw'n gyfoes â newyddion a rhoi'r gair ar led.</p> <p>Ystyried un cyfarfod GGLI y flwyddyn i fod yn 'gwrdd i ffwrdd GGLI' i adolygu'r strategaeth a chlywed gan fwy o noddwyr a buddiolwyr prosiectau.</p>	<p>Gwahoddwyd noddwyr prosiectau yn rheoliad i siarad yng nghyfarfodydd GGLI.</p> <p>Ni ddatblygwyd y llythyr newyddion a gweithgaredd cyfryngau cymdeithasol wedi cyfarfodydd GGLI oherwydd y straen ychwanegol ar y staff yn ystod Covid.</p> <p>Ni fu modd cynnal 'cwrdd i ffwrdd GGLI' oherwydd cyfyngiadau Covid, ond y bwriad yw ail-edrych ar hyn yn 2022 – o bosib yng nghyswllt y dathliad arfaethedig (gweler y sylw mewn man arall).</p>
<p>3 Mwy o bwyslais ar ddathlu llwyddiant y rhaglen. I aelodau GGLI gymryd rôl eiriol ehangach. Gall hyn helpu i ehangu ymwneud yn rhannau cymuned y Fro Wledig sy'n 'anodd eu cyrraedd'</p>	<p>Creu a gweithredu Strategaeth Gyfathrebu ragweithiol a chadarn i ddathlu llwyddiant y rhaglen, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, y wasg draddodiadol, ymwneud wyneb yn wyneb.</p> <p>Aelodau CGC a GGLI i geisio cyfleoedd hyfforddi yn hytrach na chyflogi trydydd parti.</p> <p>Aelodau GGLI i ymgymryd â rôl eiriolaeth ehangach, ac fe'u gwahoddir i gynrychioli CGC mewn digwyddiadau, ac awgrymu cyfleoedd i staff CGC ac aelodau GGLI i godi proffil y rhaglen.</p>	<p>Gweithio gyda thimau LEADER eraill yn neddwyrain Cymru i greu adroddiad astudiaeth achos a strategaeth gyfathrebu i lobio Aelodau Senedd a chynghorau lleol am ddyfodol datblygu cymunedol wedi Brexit.</p>
<p>Effaith</p>		

<p>1 I'r GGLI gryfhau ei ffocws yn fwy ar adeiladu gallu a chapasiti yn y gymuned ehangach. I ystyried – gyda'r Cyngor – sut y gall wella mudiadau i 'helpu eu hunain' a lleihau dibyniaeth ar dîm CGC</p>	<p>Ymgorffori cynllun gweithredu manylach am ddewisiadau'r dyfodol unwaith bod mwy o wybodaeth am lwybr CGC ar gael.</p> <p>Creu astudiaethau achos o brosiectau o'r rhaglen gyfredol.</p> <p>Nodiadau canllaw yn benodol i fusnesau am gyrchu cyllid LEADER.</p>	<p>Cynnal trafodaethau ehangach gan Gyngor Bro Morgannwg am lwybr at y dyfodol i ddatblygu lleol dan arweiniad y gymuned.</p> <p>Astudiaethau achos pellach ar wefan CGC ac yn adroddiad ehangach de-ddwyrain Cymru a nodwyd uchod.</p>
--	---	---

3. SUPPORTED PROJECTS

Prosiectau wedi'r gwerthuso canol-tymor (diwedd 2019) a gymeradwywyd - Gweithredu

Trwy haen Gweithredu cyllideb LEADER, comisiynwyd 30 o brosiectau a'u caffael GGLI BM ei hun a'u gweithredu gan dîm CGC, tra derbyniodd 18 o brosiectau grantiau LEADER ac fe'u harweinir gan sefydliadau allanol i CGC.

O'r 30 prosiect a gychwynwyd gan y GGLI a than arweiniad y tîm CGC, cymeradwywyd tri ers y gwerthuso canol-tymor yn 2019. Dyma hwy:

Comisiynu a Gaffaelwyd	Gwariant Terfynol neu hyd yma (RhDGC)	Statws
Pecyn Cymorth Busnesau Twristiaeth	£8,165	Cwblhawyd
Rhwydwaith Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored	£2,000	Cwblhawyd
Mapio Cymunedol 2021/Tlodi Bwyd	£5,880	Yn digwydd

Derbyniodd 10 yn fwy o brosiectau gyllid grant LEADER ers y gwerthuso canol-tymor, wedi'u cyflwyno gan fudiadau allanol. O'r rhain, mae a wnelo pump â Gŵyl Ffilmiau'r Fro a gynhaliwyd yn 2019. Roedd gan dîm CGC rôl allweddol i gychwyn yr Ŵyl hon. Gwahoddwyd mudiadau i gyflwyno cynigion i gynnal digwyddiadau fel rhan o'r ŵyl trwy alwad agored am ddiddordeb. Cynhaliwyd yr Ŵyl ym Medi/Hydref 2019. Hefyd, cyfeiriwyd dau brosiect o gynllun Arwyr y Fro Bro Morgannwg - a sefydlwyd yn ystod y cyfnod clo - gan eu bod yn cyd-fynd â'r SDLI a'u bod wedi eu hanelu at y Fro Wledig.

Mae manylion y 10 prosiect isod. Rhoddir rhestr lawn o'r holl brosiectau gyda chostau yn Atodiad 1.


Grant	Gwariant Terfynol (RhDGC)	Statws
Digartrefedd a Sgowtio (rhan o Ŵyl Ffilmiau'r Fro) [GFfF]	£4,439	Cwblhawyd
A Month in the Country (rhan o GFfF)	£1,696	Cwblhawyd
Gŵyl Ffilmiau Sant Hilari (rhan o GFfF)	£898	Cwblhawyd
Jurassic Coast (rhan o GFfF)	£4,409	Cwblhawyd
The Village (rhan o GFfF)	£1,182	Cwblhawyd
Olwynion yn Gweithio	£4,615*	Yn digwydd
Worms R Us (cyfeiriwyd o Arwyr y Fro)	£1,490	Cwblhawyd
Adeiladwaith Adref (cyfeiriwyd o Arwyr y Fro)	£664	Cwblhawyd
Gwefan Bwyd y Fro a rhwydwaith digidol	£5,000	Cwblhawyd


Gŵyl Wanwyn Bwyd y Fro	£6,500*	Yn digwydd
------------------------	---------	------------

* Mae hyn yn cynrychioli gwerth grant y RhDGC, er efallai na fydd wedi ei hawlio/wario yn llawn, o ystyried bod y prosiect yn dal yn digwydd

Prosiectau wedi'r gwerthuso canol-tymor (diwedd 2019) a gymeradwywyd - cydweithio:

Cymerwyd un prosiect ymlaen drwy'r haen gydweithio - prosiect Colabora. Bu dau gyfnod o weithgaredd gyda hyn, ac yn fwy diweddar y datblygwyd yr ail gyfnod:

 I gychwyn fel prosiect trawsgenedlaethol yn gweithio gyda saith o bartneriaid eraill, yn canoli ar wahanol atebion er mwyn datblygu cydweithio i gymunedau gwledig

 Ail gyfnod yn bwrw ymlaen â rhai o'r syniadau o Gyfnod 1 a rhoi prawf arnynt yn benodol yn y Fro Wledig. Cafodd Covid-19 effaith ar yr ail gyfnod, ond er hynny, rhoddwyd prawf ar wahanol fannau a'r awch am gydweithredu. Mae yn awr yn cael ei barhau wedi LEADER trwy arian o Gronfa Adfywio Cymunedol y DU.

Mae'r isod yn rhoi disgrifiad byr o'r prosiectau a gymeradwywyd a'u cefnogi ers y gwerthuso canol-tymor (diwedd 2019). Mae rhestr lawn o'r holl brosiectau, gyda disgrifiadau byr, yn Atodiad 1.

Prosiectau a Gaffaelwyd ac a Gomisiynwyd gan GGLI BM

Pecyn Cymorth Busnesau Twristiaeth:

Datblygu 'Pecyn Cymorth Twristiaeth', adnodd sy'n ateb yr holl gwestiynau, neu lle bo hynny'n briodol, yn cyfeirio busnesau twristiaeth i ymwelwyr at lwyfannau a mudiadau priodol ynghylch eu cais. Y nod yw sicrhau cyngor a gwybodaeth gyson i fusnesau, ac y mae hefyd yn helpu i oresgyn yr angen i ddal ati i ateb cwestiynau tebyg, gan ryddhau amser gweithwyr proffesiynol i weithgareddau eraill sy'n cefnogi busnesau.

Rhwydwaith Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored:

Yr oedd y prosiect hwn yn gynllun peilot i ddatblygu rhwydwaith yn dwyn ynghyd ddarparwyr gweithgareddau awyr agored yn y Fro Wledig - yn dilyn o argymhelliad allweddol mewn astudiaeth dichonoldeb cynharach am ddatblygu gweithgareddau awyr agored ar hyd arfordir y Fro Wledig (Gŵyl y Môr). Datblygodd y prosiect weledigaeth a chenhadaeth i'r rhwydwaith, safle ar-lein i aelodau draffod, a chynnal cyfarfodydd awyr agored wyneb yn wyneb - er nad oedd digon o ddarparwyr yn cymryd rhan i sefydlu rhwydwaith bryd hynny.

Mapio Cymunedol 2021 – y Normal Newydd/Tlodi Bwyd:

Prosiect mewn dwy ran – yn gyntaf i wneud mwy o fapio cymunedol yn ystod y pandemig i helpu cymunedau i ail-asesu eu hasedau a'r gwasanaethau oedd eu hangen i adfer wedi Covid a helpu i adeiladu cymunedau gwydn at y dyfodol. Yn ail, astudiaeth benodol yn Llanilltud Fawr - 'Pryd Da i Bawb, Bob Dydd' – oedd yn edrych ar bynciau tlodi bwyd, eto gyda golwg ar adfer wedi Covid.

Prosiectau a gyllidwyd â grant

Digartrefedd a Sgowtio (rhan o Wyl Ffilmiau'r Fro yn 2019 'Yr Yma Cudd'):

Prosiect mewn dwy ran - y cyntaf yn canoli ar hanes Robert Baden Powell, sylfaenydd y mudiad sgowtio a'r geidiaid, fel y'i hadroddwyd gan ei wyres sy'n byw ym Mro Morgannwg. Yr oedd yr ail yn canoli ar werthwyr y Big Issue yn y Fro gyda ffilmiau byr yn adrodd eu storïau ac a ddangoswyd yn yr Wyl Ffilmiau, gan helpu i ddwyn pobl yr ymylon i mewn i'r digwyddiad.

A Month in the Country (rhan o Wyl Ffilmiau'r Fro yn 2019 'Yr Yma Cudd'):

Yr oedd y prosiect hwn yn golygu dangos y ffilm 'A month in the Country' yn Eglwys Sant Cadog, gan droi'r eglwys yn balas lluniau dros dro, ac ar yr un pryd godi proffil murluniau hanesyddol a ddarganfuwyd yn ddiweddar yn Sant Cadog i ymwelwyr.

Gŵyl Ffilmiau Sant Hilari (rhan o Wyl Ffilmiau'r Fro yn 2019 'Yr Yma Cudd'):
Cynhaliwyd dau ddiwyddiad – yn gyntaf, noson Bollywood yn neuadd Sant Hilari, oedd yn ymgorffori trafodaeth ynghylch creu Bollywood yn ne Cymru, sesiwn ddawns, a bwyd. Yn ail, ffilmiau di-lais gyda cherddoriaeth byw, yn Eglwys Sant Hilari a chan gynnwys dosbarth meistr cerddoriaeth i blant.

Jurassic Coast (rhan o Wyl Ffilmiau'r Fro yn 2019 'Yr Yma Cudd'):
Cyfres o bedwar gweithdy creu ffilmiau oedd yn ymchwilio i forlin Jwrasig Bro Morgannwg a gafodd eu dangos ochr yn ochr â ffilm ar thema deinosoriaid, ac ar yr un pryd, ddysgu sgiliau gwneud ffilm ac animeiddio.

The Village (rhan o Wyl Ffilmiau'r Fro yn 2019 'Yr Yma Cudd'):
Digwyddiadau ffilm a gynhaliwyd yn (a) Pentref Llyn Comeston yn dangos nifer o ffilmiau wedi eu hanelu at blant ac oedolion; a (b) Amgueddfa Awyrennau De Orllewin Lloegr yn Sain Tathan, yn benodol hangar Aerotech a sgrinio 'Apocalypse Now'.

Olwynion yn Gweithio:
Gosod uned swyddfa symudol sydd hefyd yn cynnig llety, man cyfarfod ac arosfan cysur i Fân-ddeiliaid Morgannwg. Y cynnig yw carafán fechan ail-law gyda chyfrifiadur, argraffydd a chysylltedd band eang, fel y gallai mân-ddeiliaid fynd ar-lein a chyrru argraffydd mewn lle tawel, glân.

Gwefan Bwyd y Fro a rhwydwaith digidol:
Datblygu a lansio gwefan/llwyfan digidol unswydd i gefnogi datblygu rhwydwaith i'r Fro fydd yn canolbwyntio ar fusnesau a gweithgareddau bwyd. Y bwriad oedd i'r wefan fod yn storfa gwybodaeth a hyrwyddo, ynghyd â chyfleoedd i fusnesau bwyd arddangos eu cynnyrch.

Worms R Us – Mân-ddeiliaid Morgannwg (cyfeiriwyd o raglen Arwyr y Fro):
Effeithiodd Covid-19 ar wasanaethau milfeddygon nad oeddent yn hanfodol, ac yr oedd yn anodd i fân-ddeiliaid gyrchu profion a thriniaethau am heintiadau llyngyr yn eu da byw. Rhoddodd y prosiect brawf ar system oedd yn caniatáu i fân-ddeiliaid gynnal eu profion eu hunain ac uwchlwytho'r rhain i labordy i'w dadansoddi, gan roi'r canlyniadau yn ôl i'r deiliad.

Adeiladwaith Adref (cyfeiriwyd o raglen Arwyr y Fro):
Prosiect a redwyd gan Pinkspiration gyda'r RSPB, oedd yn darparu blychau nythu a wnaed gartref i adar i gymunedau yn y Fro Wledig yn ystod y cyfnod clo. Adeiladwyd y citiau blychau nythu gan fyfyrwyr Coleg Gwent, felly roedd hyn yn rhoi cyfleoedd i ddysgu a hyfforddi.

Gŵyl Fwyd Gwanwyn y Fro:
Ataliodd Covid-19 lansio brand Bwyd y Fro. Datblygodd y prosiect hwn wyl arlein i helpu i hyrwyddo adnabod brandiau Bwyd y Fro ac adeiladu cynulleidfa arlein – fel sylfaen i ddiwyddiadau wyneb-yn-wyneb yn y dyfodol. Roedd yn adeiladu ar argymhelliad adroddiad blaenorol o 'Wneud Synnwyr o Fwyd' yn 2018. Yr oedd yr wyl yn cynnwys 'coginio i'r teulu', fideos ar dyfu cymunedol a thrafodaethau 'Meddwl yn Fyd-eang Bwyta'n Lleol' arlein.

Prosiectau Cydweithredu

Colabora:
Prosiect cydweithredu trawsenedlaethol sy'n gweithio gyda saith partner Ewropeaidd arall i ddysgu am ddatblygu gofodau cydweithio mewn ardaloedd gwledig. Yn lle'r prosiect trawsenedlaethol cychwynnol daeth ail gyfnod ar lefel leol yn y Fro Wledig, gan roi prawf ar syniadau a ddatblygwyd yn y cyfnod cyntaf. Comisiynwyd mudiad 'Sgwâr y Dref' i weithio gydag egin-fusnesau ar 'ysgol fusnes' 12-wythnos; y bwriad oedd cynnal cynllun peilot o fannau cydweithio y gallai egin-fusnesau eu defnyddio. Achosodd y pandemig ail-feddwl am y cynnig, a chynhaliwyd 'gŵyl gydweithio' yn y Fro Wledig ym Mehefin 2021, lle rhoddwyd prawf ar lawer o fannau cydweithio posib am fis. Mae rhai wedi dal i redeg, ac eraill heb wneud hynny. Ers hynny, derbyniodd 'Sgwâr y Dref' grant Cronfa Adnewyddu Cymunedol i ymestyn y prosiect ar draws tair sir yng Nghymru - gan gynnwys Bro Morgannwg.

Y newid mawr a fu mewn cyd-destun ers y gwerthuso canol-tymor ei gwblhau ddiwedd Hydref 2019 oedd pandemig Covid-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig â hynny. Fel gyda'r rhan fwyaf o weithgareddau, fe gafodd hyn effaith ar agweddau o'r rhaglen, oherwydd bod yn rhaid i CGC addasu ffocws ei waith yn y tymor bur yn ogystal â'r prosiectau cyfredol eu hunain.

Elwodd y rhaglen o'r ffaith fod cyfran helaeth o gyllideb y rhaglen wedi ei ymrwymo cyn y pandemig. Yr oedd hyn wedi golygu y bu'n haws 'rheoli allan' y rhaglen na phetai'n rhaid dal i neilltuo cyfran sylweddol o gyllideb y rhaglen. Cafodd y pandemig fwyaf o effaith ar brosiectau oedd eisoes wedi eu cymeradwyo - rhai ohonynt yn pwyso'n drwm ar gyswllt wyneb-yn-wyneb. Addasodd rhai prosiectau hyn eu dulliau o gyflwyno, e.e., symud arlein, tra bod momentwm eraill wedi arfau yn ystod y cyfnod hwn. Ymddengys hyn yn ganlyniad anorfod o'r cyfyngiadau oedd ar waith.

Ffactor arall oedd yr angen i GGLI ei hun symud i fformat arlein, yn hytrach na chyfarfod corfforol. Dyma ffurf cyfarfod chwarterol GGLI o hyd. Er bod hyn wedi ei reoli'n dda, awgryma adborth na fu hyn yn ddelfrydol a bod consensws nad yw fforwm arlein mor llesol na chynhwysol a chyfarfod wyneb-yn-wyneb yn y cnawd. Tybir bod 'blinder arlein' hefyd wedi cyfrannu at bresenoldeb is yn rhan olaf y rhaglen, er y gallai hyn gael ei esbonio'n rhannol gan y ffaith fod y rhaglen ei hun yn dirwyn i ben.

Ochr yn ochr ag effaith Covid - sydd hefyd yn rhannol yn ffactor esboniadol - bu gostyngiad graddol mewn adnoddau yn nhîm CGC ei hun. Yr oedd rhai aelodau staff oedd â rôl ddatblygu cymunedol/animeiddio wedi gadael i gymryd swyddi yn rhywle arall - llawer o'r rhain yng Nghyngor BM ei hun (gweler y sylw yn rhywle arall). Yr oedd y gostyngiad graddol ym maint tîm CGC hefyd yn adlewyrchu'r angen i roi cefnogaeth i ddatblygu a/neu gaffael prosiectau. Hefyd, ail-gyfeiriwyd rhai aelodau o'r tîm i waith 'ymateb i Covid' ar draws y Cyngor, yn enwedig yng nghyfnod cynnar y pandemig. Yn amlwg, bu'n rhaid i'r tîm llai flaenoriaethu mwy ar ei waith. Adlewyrchir hyn yn rhannol yn rhai o'r ymatebion i argymhellion y gwerthuso canol-tymor - nid oedd modd i rai pethau fod yn flaenoriaeth, yn enwedig yng nghyd-destun terfynu graddol y rhaglen.

Fodd bynnag, dywed yr adborth a gawsom, ar waetha'r ffactorau hyn, fod tîm CGC wedi gwneud yn dda i 'gadw olwynion y rhaglen yn troi', yn ogystal â pharhau i 'gydio yn nwylo' rhai prosiectau er mwyn gwneud yn siŵr eu bod wedi addasu i'r amgylchiadau newydd.

Fel y saif, mae gan CGC yn awr adnodd bychan – yn bennaf i ddelio a gofynion gweinyddol ac ariannol y rhaglen sydd weddill.

Y ffactor arall o ran y cyd-destun cyffredinol fyddai'n fuddiol i'w amlygu fu'r ansicrwydd am ddyfodol datblygu cymunedol (gwledig) yn y dyfodol. Gyda diwedd rhaglen LEADER – a heb unrhyw wir eglurder ynghylch pa weithgaredd ddaw yn ei lle – mae llawer ardal gan gynnwys Bro Morgannwg wedi bod yn ceisio deall a all gweithgaredd tebyg barhau (a sut). Yn ein barn ni, dangosodd ein gwaith – gan gynnwys yr adroddiad gwaddol sy'n mynd gyda'r gwerthuso canol-tymor – fod cryn werth mewn datblygu cymunedol o'r gwraidd. Nid yw'n hawdd ei ailadrodd mewn rhaglenni cyllido eraill, gan yr ymddengys bod llawer ohonynt yn canolbwyntio mwy ar fodel cyflwyno mwy canoledig.

Mewn rhai ardaloedd gwledig, mae'n debyg y bydd y math hwn o ddatblygu cymunedol yn dod i ben i ryw raddau pan ddaw'r rhaglen i ben. Fodd bynnag, yn BM mae gwerth y math hwn o waith - ac yn anad dim y sgiliau a'r profiad sydd gan dîm CGC- wedi ei gydnabod. Yn ddiweddar, cymeradwyodd y Cyngor sefydlu tîm newydd i ganoli ar ddatblygu cymunedol fydd yn integreiddio staff CGC ynddo, ac y mae hyn i'w groesawu, a dylai wneud i ffwrdd a pheth o'r ansicrwydd fu'n gysylltiedig â rhan olaf y rhaglen. Gall hyn roi peth sicrwydd i brosiectau a mudiadau cymunedol at y dyfodol.

5. CYLLID LEADER FINANCE A DANGOSYDDION PERFFORMIAD

Mae'r adran hon yn adolygu'r canlyniad ar gyllid y rhaglen a dangosyddion perfformiad. Mae'n defnyddio gwybodaeth fonitro CGC, yn arbennig broffiliau cyflwyno ar gyfer pob un o bedwar haen cyllid LEADER (seiliedig ar wybodaeth yn Rhagfyr 2021 - y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael).

Proffil Ariannol a gwariant

Gosodir cyllideb gyffredinol rhaglen LEADER Bro Morgannwg allan yn y tabl isod, wedi'i ei isrannu yn bedwar haen gweithgaredd y dyrennir cyllid LEADER yn eu herbyn.

Haen Rhaglen LEADER BM	Cyllid RhDGC	Cyllid Cyfatebol	Cyfanswm
Gweithredu	£1,296,749	£324,190	£1,620,939
Animeiddio	£273,000	£0	£273,000
Gweinyddu	£182,000	£0	£182,000
Cydweithredu	£68,249	£17,063	£85,312
CYFANSWM	£1,819,998	£341,253	£2,161,251

Ni newidiodd dyraniad cyffredinol y gyllideb ers y gwerthuso canol-tymor. Fodd bynnag, ailbroffiliwyd y gyllideb yn 2020 a'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Galluogodd hyn Raglen LEADER BM i ymestyn ei hamserlen. Beth wnaeth hyn mewn gwirionedd oedd ymestyn y gweithgareddau gweithredu i Ragfyr 2021 a'r haenau eraill i Fawrth 2022. Mae cyllid Cyngor BM – a neilltuwyd i fod yn gyllid cyfatebol i weithgareddau LEADER ond na ddefnyddiwyd mor helaeth ag y rhagwelwyd – yn cael ei ddefnyddio i gyfatebu gwariant LEADER dros y cyfnod hwy.

Gwnaed cais pellach am estyniad i'r amser ym Medi 2021. Mae hyn yn ymestyn y dyddiad terfynu o flwyddyn yn ychwanegol, tan Fawrth 2023. Mae hyn yn cadw'r GGLI ar waith ac yn golygu y gellir cwblhau prosiectau yn llawn.

Mae'r tabl isod yn gosod allan y gwariant yn erbyn cyfanswm y dyraniadau cyllideb fesul pob haen LEADER - fel yn Rhagfyr 2021. Mae'n dangos yr union wariant tan ddiwedd Mehefin 2021 ynghyd a gwariant a broffiliwyd o fis Gorffennaf-Rhagfyr 2021 ac a oedd i fod i gael ei hawlio gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd 2021.

Mae'r tabl hefyd yn torri'r gyllideb weithredu - y llinell gyllideb fwyaf yn y rhaglen o bell ffordd - i'w gwahanol elfennau. Pwynt pwysig i'w nodi yw nad yw'r golofn olaf yn cyfateb i'r gyllideb sydd ar ôl i'w neilltuo. Mae a wnelo â'r swm sydd ar ôl i'w hawlio gan Lywodraeth Cymru. Dangosodd ein trafodaethau fod llawer o'r symiau sydd weddill eisoes wedi eu hymrwymo, ac mewn rhai achosion wedi eu gwario a'u talu o CGC i dderbynwyr prosiectau (grantiau prosiect). Fodd bynnag, nid yw'r grant RhDGC eto wedi ei dwyn i lawr oddi wrth Lywodraeth Cymru a chaiff ei hawlio yn Rhagfyr 2022 a Mawrth 2023.

	Cyfanswm	Cyllid RhDGC	Cyfanswm gwariant hyd at 06/21	Gwariant a broffiliwyd 07-12/21	Cyfanswm Gwariant hyd at 12/21	Cyllideb heb ei gwario i'w hawlio erbyn 03/23

Cyllideb Weithredu: dadansoddiad	£1,620,939	£1,296,75 1	£1,255,96 4	£90,157	£1,346,12 1	£274,818
<i>Caffaelwyd/comisiy nwyd gan GGLI+</i>	<i>£320,723</i>	<i>£256,578</i>	<i>£259,484</i>	<i>£9,100</i>	<i>£268,584</i>	<i>£52,139</i>
<i>Grantiau prosiect</i>	<i>£179,999</i>	<i>£143,999</i>	<i>£85,426</i>	<i>£20,171</i>	<i>£105,597</i>	<i>£74,402</i>
<i>Costau staff CGC (swyddogion prosiect)*</i>	<i>£873,344</i>	<i>£698,675</i>	<i>£781,499</i>	<i>£52,944</i>	<i>£834,443</i>	<i>£38,901</i>
<i>Marchnata prosiectau</i>	<i>£31,003</i>	<i>£24,802</i>	<i>£15,642</i>	<i>£0</i>	<i>£15,642</i>	<i>£15,361</i>
<i>Gorbenion (cyfradd wastad 15%)</i>	<i>£215,870</i>	<i>£172,696</i>	<i>£113,913</i>	<i>£7,942</i>	<i>£121,855</i>	<i>£94,015</i>
Animeiddio	£273,000	£273,000	£236,477	£17,250	£253,727	£19,273
Gweinyddu	£182,000	£182,000	£157,692	£11,500	£169,192	£12,808
Cydweithio	£85,312	£68,249	£24,764	£23,935	£48,699	£36,613
CYFANSWM	£2,161,251	£1,820,000	£1,674,897	£142,842	£1,817,739	£343,512

+cynnwys costau staff mewn nwyddau gan bartneriaid cymunedol * cynnwys llinell gyllideb AD

Dengys y drafodaeth gyda tîm CGC fod y dyraniad cyllideb cydweithredu nas gwariwyd wedi ei ymrwymo i brosiect Sgwariau'r Dref. Mae'r gyllideb yng nghyswllt grantiau'r prosiect (Gweithredu a Chydweithredu) a ddangoswyd yn y tabl isod wedi ei wario (ei ddarparu i sefydliadau allanol) ond nid yw eto wedi ei gymryd i lawr o Lywodraeth Cymru – sy'n cyfrif am ryw £110,000 o'r gweddill.

Dywed y tîm CGC mai dim ond tri o brosiectau sydd heb eto gwblhau eu gweithgaredd, tra bod rhai prosiectau wedi cwblhau ond heb eto gyflwyno ceisiadau terfynol i CGC. Mae gweddill y cyllid mewn prosiectau a gafaelwyd/gomisiynwyd gan y GGLI felly'n debyg o gael ei wario - tua £52,000 arall.

Bu GGLI BM yn cydweithredu â GGLI eraill yn ne-ddwyrain Cymru i gynhyrchu llyfryn am effaith cyllid LEADER. Mae hwn bron â'i gwblhau. Yr ydym ar ddeall fod peth o'r gyllideb farchnata yn cael ei ddefnyddio ar gyfer hyn, yn ogystal â pharhau i farchnata gweithgareddau LEADER BM. O adolygu cofnodion GGLI gallwn weld hefyd fod cynlluniau ar y gweill i gynhyrchu mwy o fideos astudiaethau achos ac adroddiadau. Yr ydym wedi adolygu llawer o'r fideos astudiaethau achos a gynhyrchwyd, ac y mae'r rhain yn fuddiol i ddangos y gweithgareddau hynny a gefnogwyd trwy'r rhaglen. Ar sail hyn, mae'n debyg y bydd gweddill y gyllideb farchnata yn cael ei gwario.

Mae balans yn weddill o amser staff CGC a'r gorbenion cysylltiedig i gefnogi gweddill y gweithgareddau ar draws pob haen trwodd at fis Mawrth 2023. Mae hyn bellach yn eithaf cyfyngedig, sy'n adlewyrchu gostyngiad yn adnodd staff CGC dros y flwyddyn a aeth heibio - oherwydd bod rhai aelodau o'r tîm wedi symud i swyddi newydd yng nghyngor BM.

Yn gyffredinol, o'n hadolygiad o wybodaeth ariannol a chyda gwybodaeth o drafodaethau gyda tîm CGC, tra bod y gwerthuso terfynol hwn yn cael ei gynnal 12 mis cyn cwblhau'r holl wario, ein hadolygiad annibynnol yw bod y gyllideb lawn (bron) yn debyg o gael ei gwario erbyn cau'r rhaglen.

O'i gosod yng nghyd-destun adolygiad y gyllideb yn y gwerthuso canol-tymor, gwnaeth y rhaglen gryn gynnydd gyda gwariant ar brosiectau a gefnogwyd trwy'r haen Gweithredu. Erys y ffaith fod cryn swm o'r gyllideb Gweithredu yn gysylltiedig â chostau tîm CGC (sy'n adlewyrchu rôl greiddiol

tîm CGC i animeiddio, datblygu a chefnogi prosiectau). Mae'n wir hefyd fod y GGLI wedi comisiynu lefel dda o weithgaredd sy'n digwydd. Mae tîm CGC wedi caffael, rheoli a chyflwyno'r gweithgaredd hwn ar ran y GGLI. Parhaodd rôl tîm y CGC i fod yn hynod 'ymarferol'.

Cyrraedd Dangosyddion Perfformiad

Adolygwyd targedau'r Dangosyddion Perfformiad (DP) yn helaeth yn 2020, ynghyd ag ail-werthuso'r gyllideb a chyflwyno proffilio newydd o'r gwariant i Lywodraeth Cymru. Ar sail y profiad hwn hynny a disgwyliadau pellach o gyflwyno gan brosiectau a gomisiynwyd, adolygwyd yr holl dargedau DP tuag i fyny. Mae'r tabl isod yn gosod allan sut yr adolygwyd y targedau DP - am bob haen o raglen LEADER.

Adolygu dangosyddion – fesul llinell gyllideb										
Dyddiad 2019 adeg y Gwerthuso Canol-Tymor	Gweithredu		Animeiddio		Cydweithredu		Gweinyddu		CYFANSWM	
	2019	2021	2019	2021	2019	2021	2019	2021	2019	2021
Astudiaethau dichonoldeb	13	26			0	4			13	30
Sefydlu rhwydweithiau	3	8			3	3			6	11
Cynnal/cefnogi gweithgareddau peilot	22	80			3	8			25	88
Canolfannau cymunedol	1	2							1	2
Lledaenu gwybodaeth/marchnat a hyrwyddo	32	250	1	35	6	10	1	10	40	305
Ymwneud â rhanddeiliaid	81	450			10	15			91	465
Cyfranogwyr a gefnogwyd	400	6500			50	50			450	6550

Rydym wedi defnyddio gwybodaeth a osodwyd allan ym mhroffiliau cyflwyno LEADER BM i ddangos cynnydd yn erbyn y targedau diwygiedig hyn. Fel gyda'r sefyllfa ariannol, mae'n wir hefyd nad adroddwyd eto am yr holl ddangosyddion a gyrhaeddwyd i Lywodraeth Cymru. Eto, mae'r golofn olaf yn y tabl isod yn adlewyrchu'r balans i'w adrodd gan y rhaglen. Nid yw'n adlewyrchu'r ffaith y'u cyrraeddwyd eisoes - gall rhai fod wedi eu cyrraedd ac adroddiad eisoes wedi ei roi i'r tîm CGC.

Cyllideb Weithredu	Targed	Cyrhaeddwyd hyd yma	I'w adrodd 12/21	% Targed ar 12/21	Nifer heb eto adrodd arnynt 03/23
Nifer astudiaethau dichonoldeb	26	8	10	69%	8
Nifer rhwydweithiau a sefydlwyd	8	4	0	50%	4
Nifer gweithgareddau peilot a gynhaliwyd/gefnogwyd	80	32	20	65%	28
Nifer canolfannau cymunedol	2	1	0	50%	1
Nifer camau lledaenu gwybodaeth/marchnata hyrwyddo	250	107	50	62%	93

Nifer rhanddeiliaid yr ymwnaed â hwy	450	181	100	62%	169
Nifer cyfranogwyr a gefnogwyd	6,500	700	2,000	41%	3,800

Cyllidebau Cydweithredu, Animeiddio a Gweinyddu	Targed	Cyrhaeddwyd hyd yma	I'w adrodd 12/21	% Targed ar 12/21	Nifer heb eto adrodd arnynt 03/23
Nifer astudiaethau dichonoldeb	4	0	1	25%	3
Nifer rhwydweithiau a sefydlwyd	3	1	2	100%	0
Nifer gweithgareddau peilot a gynhaliwyd/gefnogwyd	8	2	2	50%	4
Nifer camau lledaenu gwybodaeth/marchnata hyrwyddo	55	6	15	38%	34
Nifer rhanddeiliaid yr ymwnaed â hwy	15	10	2	80%	3
Nifer cyfranogwyr a gefnogwyd	50	10	20	60%	20


Eto, i bwysleisio'r pwynt uchod, gall y tablau hyn awgrymu bod cyfran sylweddol o'r dangosyddion perfformiad eto i'w cyflwyni/adrodd amdanynt wedi Rhagfyr 2021 - os am gwrdd â'r targedau. Fodd bynnag, deallwn o drafodaethau gyda CGC fod y dystiolaeth am ddangosyddion sydd heb eu cyrraedd eto wedi ei chasglu i raddau helaeth, ond nad oes adroddiad eto wedi ei anfon at Lywodraeth Cymru. Nid ydym wedi llwyddo i wirio hyn yn annibynnol. Bwriedir cyflwyno'r hawliad nesaf gan CGC yn Rhagfyr 2022. Bydd yn briodol o hyd i dîm CGC ddal i ganolbwyntio ar y dangosyddion dros y cyfnod sydd weddill er mwyn sicrhau yr atebir y targedau yn llawn.

6. DIWEDDARIAD - LLWYDDIANT YN ERBYN AMCANION SDLI

Amcanion SDLI a Themâu RhDGC

Mae Strategaeth Datblygu Lleol (SDLI) Bro Morgannwg yn gosod nod cyffredinol a phedwar blaenoriaeth. Crynhoir y rhain yn y diagram isod – fel y trafodwyd yn ddyfnach yn y gwerthuso canol-tymor. Ychwanegwyd pumed blaenoriaeth yn ystod adolygiad o'r SDLI yn 2020, fel ymateb ar y cyd i'r pandemig Coronafirws a'r camau y galli'r GGLI gymryd i gefnogi Cyngor BM, cyrff eraill y sector cyhoeddus, y sector wirfoddol a busnesau i ddechrau adfer o'r pandemig.

PWRPAS: Tyfu'r economi wledig ym Mro Morgannwg – nid er ei fwyn ei hun yn unig ond i helpu i gynnal yr amgylchedd naturiol, i gefnogi ei chymunedau amrywiol a chreu busnesau ffyniannus.



Ochr yn ochr â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod allan bum thema RhDGC i LEADER, gyda BM yn cymryd rhan yn y pump. Fe'u crynhoir isod.

Thema RhDGC 1: Bro Ddeniadol	Thema RhDGC 2: Labordy Arloesedd Busnes	Thema RhDGC 3: Cymunedau sy'n esblygu	Thema RhDGC 4: Ynni Gwyrdd Cymunedol	Thema RhDGC 5: Ymchwilio i dechnoleg ddigidol
Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol	Hwyluso datblygu cyn-fasnachol, partneriaethau a chadwyni cyflenwi byr	Ymchwilio i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau anstatudol	Ynni adnewyddol ar lefel gymunedol	Ymchwilio i dechnoleg ddigidol

Themâu trawstorri - Datblygu Cynaliadwy, Cyfle cyfartal, Tlodi a chynhwysiant cymdeithasol, yr iaith Gymraeg

Fel y trafodwyd yn y gwerthuso canol-tymor, nid oes yr un o flaenoriaethau'r SDLI yn ffitio'n daclus i un thema RhDGC (roeddent yn bod cyn y gofyniad i ffitio i themâu RhDGC). Fodd bynnag, y maent yn mapio'n fras. Gellir gweld y mapio hwn yn y Tabl Rhesymeg Ymyriadau - sy'n gosod allan sut yr eisteddodd bwriadau blaenoriaeth y SDLI a'r amcanion sylfaenol gyda themâu. Crynhoir hyn yn yr isadran nesaf, sy'n adolygu sut y mae prosiectau a gefnogwyd wedi cyfrannu at Themâu RhDGC a blaenoriaethau'r SDLI.

Nid yw'r blaenoriaethau wedi newid ers datblygu'r SDLl gyntaf. Fodd bynnag, yn 2020 gofynnodd Llywodraeth Cymru i bob GGLI ail-ganoli gweithgareddau mewn economïau a chymunedau gwledig i ymdrin â materion a ddeilliodd o'r pandemig. Felly, ychwanegodd GGLI BM haen benodol oedd yn gysylltiedig â Covid-19 i bob Thema RhDGC - dan y teitl 'cefnogi cymunedau gwydn'. Cefnogodd hyn brosiectau newydd a ddatblygwyd mewn ymateb i'r pandemig, yn ogystal â galluogi prosiectau oedd yn bod eisoes i addasu i newid mewn amgylchiadau, e.e., datblygu offer a sgiliau digidol. Mewn gwirionedd, daeth hyn yn ymyriad strategol ychwanegol gan y SDLl.

Ffit y Prosiect gyda blaenoriaethau SDLl a Themâu RhDGC

Fel y dangoswyd eisoes – yn rhannol mewn ymateb i'r argymhelliad yn y gwerthuso canol-tymor - mae GGLI BM eisoes wedi mapio'r rhan fwyaf o'i brosiectau mewn perthynas â Themâu RhDGC, blaenoriaethau SDLl ac amcanion yn y Tabl Rhesymeg Ymyriadau. Bu hyn o gymorth. Rydym hefyd wedi ychwanegu'r rhai na fapiwyd o'r blaen yn y tabl isod. Mae'n crynhoi sut mae'r 48 prosiect a gefnogwyd trwy LEADER BM wedi ffitio yn erbyn blaenoriaethau SDLl a themâu RhDGC. Mae mwy o fanylion yn Atodiad 1.

Thema RhDGC	Blaenoriaeth SDLl	Is-thema/Amcan SDLl	Nifer prosiectau
UN Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol	BL: Creu mwy o werth economaidd o'r amgylchedd naturiol a hanesyddol	1A Cynyddu potensial busnes a chyflogaeth yr arfordir	4
	BL1: Creu mwy o werth economaidd o'r amgylchedd naturiol a hanesyddol	1B Cynyddu potensial busnes a chyflogaeth asedau treftadaeth	6 (2)
	BL1: Creu mwy o werth economaidd o'r amgylchedd naturiol a hanesyddol BL4: Gwella defnydd digidol mewn busnesau a chymunedau lleol	1C Cynyddu potensial busnes a chyflogaeth gweithgareddau awyr agored	2
	BL5: Cefnogi economi wydn, a chymunedau	1D – Cefnogi economi wydn	(1)
CYFANSWM PROSIECTAU – THEMA 1 RhDGC			12 (3)
DAU Hwyluso datblygu cyn-fasnachol, partneriaethau a chadwyni cyflenwi byr	BL2: Manteisio i'r eithaf ar fod yn rhan o ddinas-ranbarth Caerdydd BL4: Gwella defnydd digidol mewn busnesau a chymunedau lleol	2A Cael y budd economaidd mwyaf i'r Fro wledig o fod yn rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd	2
	BL2: Manteisio i'r eithaf ar fod yn rhan o ddinas-ranbarth Caerdydd	2B Ymchwilio i gyfleoedd o ddefnyddio hen ofodau a rhai a dan-ddefnyddir a chefnogi eu hail-ddatblygu at ddefnydd busnes	3

	BL1: Creu mwy o werth economaidd o'r amgylchedd naturiol a hanesyddol BL3: Annog busnesau lleol a mentrau cymunedol i ddarparu gwasanaethau lleol	2C Cynyddu'r defnydd o gynnyrch lleol i ychwanegu gwerth, byrhau cadwyni cyflenwi a datblygu cynnyrch lleol	9
	BL2: Manteisio i'r eithaf ar fod yn rhan o ddinas-ranbarth Caerdydd	2E Ymchwilio i anghenion busnes ynghylch y Parth Menter/Datblygu cyfleoedd twristiaeth busnes	0
	BL5: Cefnogi economi wydn, a chymunedau	2F Cefnogi economi wydn	1
CYFANSWM PROSIECTAU – THEMA 2 RhDGC			15

THREE Ymchwilio i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau anstatudol	BL3: Annog busnesau lleol a mentrau cymunedol i ddarparu gwasanaethau lleol	3A Adnabod cyfleoedd am wasanaethau ac asedau	1
	BL3: Annog busnesau lleol a mentrau cymunedol i ddarparu gwasanaethau lleol	3A (1) Codi incwm o asedau cymunedol a buddsoddi rhai mewn mentrau cymunedol i gefnogi mentrau economaidd yn y Fro Wledig	1
	BL3: Annog busnesau lleol a mentrau cymunedol i ddarparu gwasanaethau lleol	3B Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i gynlluniau a gyllidir gan y gymuned leol	0
	BL3: Annog busnesau lleol a mentrau cymunedol i ddarparu gwasanaethau lleol	3C Gwella lles cymunedau yn y Fro wledig	11
	BL5: Cefnogi economi wydn, a chymunedau	3D Cefnogi cymunedau gwydn	2 (1)
CYFANSWM PROJECTAU – THEMA 3 RhDGC THEME 3			15 (1)

PEDWAR Ynni adnewyddol ar lefel gymunedol	BL3: Annog busnesau lleol a mentrau cymunedol i ddarparu gwasanaethau lleol	4A Sicrhau cefnogaeth gymunedol i fwy o ynni adnewyddol	2
	BL1: Creu mwy o werth economaidd o'r amgylchedd naturiol a hanesyddol BL3: Annog busnesau lleol a mentrau cymunedol i ddarparu gwasanaethau lleol	4B Ymchwilio i fodolau ymchwil a chyllid am ynni adnewyddol sy'n eiddo i'r gymuned	0
	BL3: Annog busnesau lleol a mentrau cymunedol i ddarparu gwasanaethau lleol	4C Effeithlonrwydd ynni am gost isel fel ffyrdd uniongyrchol o dacio tloidi lleol	(1)

	BL5: Cefnogi economi wydn, a chymunedau	4D Cefnogi cymunedau gwydn	0
CYFANSWM PROJECTAU – THEMA 4 RhDGC			2 (1)

PUMP Ymchwilio i dechnoleg ddigidol	BL4: Gwella defnydd digidol mewn busnesau a chymunedau lleol	5A Cynyddu'r defnydd o fand eang cyflym iawn i wella cynhyrchedd busnesau a chefnogi trigolion – cydgrynhoi'r galw lleol er mwyn annog ei gyflwyno'n gynt	0
	BL3: Annog busnesau lleol a mentrau cymunedol i ddarparu gwasanaethau lleol BL4: Gwella defnydd digidol mewn busnesau a chymunedau lleol	5B Rhoi i gymunedau y wybodaeth angenrheidiol i fanteisio ar dechnoleg ddigidol	4
	BL1: Creu mwy o werth economaidd o'r amgylchedd naturiol a hanesyddol BL4: Gwella defnydd digidol mewn busnesau a chymunedau lleol	5C Cynyddu gwerthiant a chynhyrchedd busnesau lleol - defnyddio gwybodaeth ddigidol i ymwelwyr	(1)
	BL1: Creu mwy o werth economaidd o'r amgylchedd naturiol a hanesyddol BL4: Gwella defnydd digidol mewn busnesau a chymunedau lleol	5D Cynyddu gwerthiant a chynhyrchedd mewn busnesau lleol	(4)
	BL5: Cefnogi economi wydn, a chymunedau	5E Cefnogi cymunedau gwydn	(2)
CYFANSWM PROSIECTAU - THEMA 5 RhDGC			4 (7)

Fel y dengys y tabl, mae'r rhan fwyaf o weithgaredd wedi canolbwyntio mewn perthynas â Thema RhDGC 2 (cefnogi datblygu cyn-fasnachol) a Thema RhDGC 3 (datblygu ffyrdd newydd o gyflwyno gwasanaethau anstatudol).

Mae nifer o brosiectau a gefnogwyd trwy Thema RhDGC 2 wedi cysylltu â phrosiectau lleol yn ymwneud â bwyd a chrefft, gan gynnwys rhai gweithgareddau a ddatblygodd yn incrementaidd trwy fwy nag un fenter - er enghraifft, Bwyd y Fro a Rhwydwaith Gwneuthurwyr Crefft. Yn Thema RhDGC 3, mae a wnelo pump o'r 11 prosiect yn 3C (y prif faes gweithgaredd) oll ag un fenter - Gŵyl Ffilmiau'r Fro a gynhaliwyd yn 2019 - lle cyllidwyd digwyddiadau a arweiniwyd gan grwpiau cymunedol fel prosiectau ar wahân. Mae prosiectau eraill a gefnogwyd trwy'r thema hon wedi canoli ar iechyd a lles, yn ogystal â mapio cymunedol asedau a chyfluoedd.

Bu cryn fywiogrwydd yn Thema RhDGC 1 (ychwanegu gwerth i hunaniaeth leol) hefyd, gan adeiladu ar asedau lleol megis yr Arfordir Treftadaeth a chyfluoedd am weithgareddau awyr agored.

Fel y dengys y tabl, yr un Thema RhDGC a welodd leiaf o weithgaredd yw ynni adnewyddol ar lefel gymunedol (Thema 4). Mae'r tîm CGC wedi ceisio ennyn diddordeb yn hyn trwy ddau brosiect - i ddechrau, digwyddiad ynni cymunedol i ysbrydoli syniadau, ac yna brosiect wedi ei dargedu'n benodol at ysgolion. Fodd bynnag, nid yw'r naill brosiect na'r llall wedi ennyn llawer o ddiddordeb. Mae trafodaethau gyda CGC yn awgrymu na fu gan grwpiau cymunedol ddigon o ddiddordeb yng

nghysyniad prosiectau ynni adnewyddol cymunedol, ac nid oedd gan CGC ei hun arbenigedd penodol mewn ynni adnewyddol. Ni fu rhaglen LEADER BM yn unigryw o ran dod ar draws problemau wrth danio diddordeb trwy'r thema RhDGC hon, gydag ardaloedd eraill wedi cael profiad o hyn.

Mae Thema RhDGC 5 (gwneud y mwyaf o dechnoleg ddigidol) hefyd wedi gweld llai o brosiectau wedi eu cefnogi – er y dylid cydnabod fod llawer o brosiectau yn croesi sawl thema gan gynnwys hon.

Mae'n berthnasol nodi hefyd fod mapio prosiectau LEADER yn y tabl ymyriadau rhesymeg hefyd wedi cynnwys cyfeiriad at rai mentrau heb fod yn ymwneud â LEADER, yn benodol yng nghyswllt 2A, 2E a 3B - gan nodi fod y gweithgaredd arall wedi helpu i gyfrannu at yr amcanion SDLl hyn er nad oeddent yn cael eu cyllido'n uniongyrchol trwy raglen LEADER.

Yn gyffredinol, ein casgliad - a nodir hefyd yn y gwerthuso canol-tymor - yw bod rhaglen LEADER BM wedi gwneud cynnydd da ar draws ei flaenoriaethau SDLl a themâu RhDGC. Mae hyn yn cael ei ddarlunio gan amrywiaeth dda o brosiectau. Mae canolbwynt yr is-grwpiau ar bob thema yn rhan gynnar y rhaglen wedi helpu i sicrhau momentwm ar draws y rhan fwyaf o'r themâu RhDGC.




Fel y dangosodd ein gwaith cynharach ar waddol, gall gymryd peth amser i fomentwm godi mewn mentrau economaidd lleol dan arweiniad y gymuned. Mae'n amlwg fod rhai prosiectau a gefnogwyd yn y rhaglen gyfredol wedi adeiladu ar weithgaredd o raglenni blaenorol. Yr hyn sy'n ymddangos yn bwysig yw canfod ffyrdd o gynnal momentwm. Yn hyn o beth, mae'r ffaith fod Cyngor BM yn ddiweddar wedi cymeradwyo sefydlu tîm datblygu cymunedol yn y Cyngor – a thrwy hynny gadw arbenigedd gweddill y staff CGC– yn debyg o helpu. Mae'n cadw'r cyfoeth o gysylltiadau rhwydweithio a sefydlodd CGC, yn ogystal â'r profiad a'r wybodaeth o'r gweithgareddau LEADER eu hunain. Dylai hyn roi gwell siawns o'i rannu er lles cymunedau yn BM.

Fel rhan o'r gwerthusiad terfynol hwn, rydym wedi adolygu'r adroddiadau cwblhau a/neu fideos astudiaethau achos o 21 prosiect, yn enwedig i ymchwilio sut y cyfeirir at sut y mae egwyddorion allweddol LEADER o integreiddio, partneriaeth, rhwydwaith ac ymwneud cymunedol. Mae'r adolygiad hwn hefyd wedi edrych ar sut y rhoddwyd manylion am ddeilliannau ac effeithiau. Yr oeddem yn awyddus i ddeall beth oedd y prosiectau oedd yn weld fel eu cynaliadwyedd tymor-hwy a'u camau nesaf.

Mae'r pwyntiau allweddol a ddeilliodd o'r adolygiad hwn wedi eu crynhoi isod dan wahanol benawdau.

Integreiddio, partneriaeth a rhwydweithio

O'r 21 prosiect a adolygwyd, crybwyllodd wyth naill ai integreiddio gyda phrosiectau eraill a/neu gyda phartneriaethau eraill – gan awgrymu fod rhai partneriaethau gwerthfawr wedi eu sefydlu:

-  Gwnaed dau brosiect gan bartneriaeth o wahanol fudiadau (tri) (Gwneud Synnwyr o Les, cynllun Bentyca Dyfeisiadau Tabled y Fro)
-  Yr oedd dau brosiect (gwahanol i'r rhai yn y pwynt bwled cyntaf) wedi canolbwyntio yn arbennig ar ddwyn mudiadau cysylltiedig â bwyd ynghyd, gan greu partneriaethau bwyd lleol a/neu gysylltu cynhyrchwyr bwyd â defnyddwyr a mudiadau eraill (Bro Bwyd, Agora)
-  Yr oedd un prosiect wedi dwyn darparwyr lleoliadau a mudiadau ffilm at ei gilydd mewn prosiect twristiaeth gŵyl ffilmiau.

Yr oedd wyth o'r prosiectau yn cyffwrdd ar weithgareddau rhwydweithio, gyda rhai prosiectau yn cael eu datblygu'n benodol i ymchwilio i botensial sefydlu rhwydweithiau, megis Cymdeithas Mân-ddeiliaid Morgannwg, Rhwydwaith Gweithgareddau Antur y Fro, a'r Rhwydwaith Gwneuthurwyr Crefft. Mae'n ddiddorol nodi fod dau o'r tri hyn wedi llwyddo i sefydlu a'u bod yn awr yn gweithio'n annibynnol o gefnogaeth CGC, gyda'u strwythurau, pwyllgorau etc. eu hunain.

Yn gyffredinol, teimlai'r GGLI mai gweithio mewn partneriaeth oedd un o'r prif gryfderau o ran gwaddol y rhaglen gyfan.

Ymwneud cymunedol

Mae hyn yn egwyddor greiddiol LEADER ac y mae prosiectau wedi ymwneud yn llwyddiannus ag amrywiaeth eang o wahanol gymunedau, gan gynnwys grwpiau'r sector busnes a phartneriaethau a mudiadau'r trydydd sector, yn ogystal â'r 'gymuned' ei hun.

I rai o'r prosiectau, bu ymwneud ar lefel y gymuned yn sylfaenol i'r prosiect - rhesymeg greiddiol. Mae hyn yn arbennig o wir am brosiectau cysylltiedig ag iechyd a lles. Mae'n amlwg hefyd o rai adroddiadau cwblhau fod cyfyngiadau Covid-19 wedi effeithio ar rai prosiectau ond eu bod wedi bod yn greadigol o ran yr hyn a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod hwnnw, e.e., sesiynau coginio teuluol arlein, fideo o dyfu cymunedol, etc. Nododd un prosiect, yn ystod y cyfnod clo, fod llawer o grwpiau neuadd pentref wedi dod at ei gilydd arlein i weithio ar y cyd - gan greu cysylltiadau rhwng cymunedau ac ar eu traws. Yr oedd un prosiect dan arweiniad y gymuned wedi ceisio newid yr hyn gellid ei ganfod fel digwyddiad lleol negyddol (colli hen goeden oedd yn dipyn o dirnod) yn ddathliad cadarnhaol o'r gymuned a choffâd, eto gan ddwyn gwahanol grwpiau yn y gymuned leol ynghyd.

Fodd bynnag, yr hyn oedd yn ddiddorol i'w weld yn adroddiadau'r prosiectau yw, er bod nifer o brosiectau wedi nodi fod gweithgareddau wedi eu datblygu mewn ymateb i geisiadau o gymunedau eu hunain, nad oedd llawer wedi dod i'r gweithgareddau hynny pan ddarparwyd hwy. Gwelwyd rhai pwyntiau dysgu, gan gynnwys y lleoliadau, y mathau ac ystyriaethau ymarferol eraill.

Unwaith eto, gwelwyd mwy o ymdeimlad o gymuned a pherchenogaeth gan y GGLI fel gwaddol allweddol a ddeilliodd o'r rhaglen. Nid yw 'perchenogaeth' yn y cyd-destun hwn o raid yn gorfod bod

yn ased corfforol neu'n lle, yn hytrach, 'perchenogaeth' o fater neu agenda. Er bod y tîm CGC yn hanfodol i yrru momentwm mewn sawl achos, mae enghreifftiau hefyd o'r gymuned wedi cymryd mwy o berchenogaeth eu hunain.

Deilliannau ac Effeithiau

Mae adroddiadau cau'r prosiectau yn cael eu hysgrifennu ar derfyn y cyfnod cyflwyno, felly o raid, ni allant nodi unrhyw effeithiau tymor-hwy. Mae adroddiadau prosiect felly wedi canolbwyntio'n bennaf ar faterion ymarferol ynghylch cyflwyno'r prosiectau a'r deilliannau pendant a gafwyd.

Yr oedd nifer o brosiectau wedi canolbwyntio ar dechnoleg ddigidol a'i fabwysiadu, gan wneud sylwadau ar y naill agwedd a'r llall yn ogystal ag amlygu heriau. O safbwynt cadarnhaol:

- 👉 Mae mynediad digidol at bethau ymarferol fel archebion neuaddau pentref wedi helpu cymunedau i gyrchu gweithgareddau yn haws
- 👉 Bu adeiladu galluedd grwpiau cymunedol o gwmpas sgiliau digidol yn hanfodol i fyd wedi Covid (a bydd yn parhau felly)
- 👉 Bu'n ffordd werthfawr o ddysgu sut i gyflwyno digwyddiadau ar-lein
- 👉 Datblygwyd pecynnau offer a gwybodaeth dechnegol, e.e. defnyddio gwefannau i hyrwyddo, a systemau archebu arlein. Cynhyrchwyd mapio GPS fel rhan o'r prosiectau

O ran heriau:

- 👉 Nid yw'r defnydd o dechnoleg yn wastad wedi gweithio yn ôl y disgwyl. Serch hynny, mae gweithgaredd LEADER wedi caniatáu rhoi prawf ar wahanol systemau, a bu hyn yn ddeiliant gwerthfawr
- 👉 Mae'n anodd dod o hyd i lwyfan digidol sy'n gweithio'n dda ar draws pob dyfais ac sy'n hawdd ei defnyddio ac yn chwiliadwy
- 👉 Mae lleoli technoleg ddigidol yn eiddo trydydd partion yn golygu bod ar y rhai sy'n ei gymryd angen llawer o gefnogaeth
- 👉 Dangosodd cynllun peilot oedd yn canoli ar roddion trwy SMS nad oedd ymwelwyr yn debygol o wneud rhoddion trwy'r sianel hon
- 👉 Nid oedd ymwelwyr yn debygol o lawrlwytho pdfs o daflenni teithiau cerdded neu debyg ar eu ffonau symudol wrth ymweld â lleoliadau
- 👉 Nid pawb yn y gymuned all gyrchu gwasanaethau digidol – ac y mae angen o hyd i ddarparu ar gyfer y rhai nad ydynt yn eu cyrchu. Mae'r pandemig wedi gwneud y bwlch digidol hwn yn fwyfwy amlwg
- 👉 Gall newidiadau i dechnoleg ddigidol ddigwydd yn sydyn, ac weithiau ddisodli'r dechnoleg a ddewiswyd yn gynt na'r disgwyl

Mae'n amlwg o'r adroddiadau cwblhau prosiectau fod rhai prosiectau wedi cynhyrchu pecynnau offer defnyddiol o ganlyniad i'w gweithgareddau peilot. Er enghraifft, mae pecyn cymorth digwyddiadau'r Wyl Ffilmiau yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth am gynnal digwyddiadau ffilm cymunedol: beth sy'n gweithio, beth nad yw'n gweithio, syniadau am lwyddiant, etc. Gallai hyn fod yn adnodd gwerthfawr i unrhyw un sydd eisiau cynnal digwyddiadau ffilm cymunedol yn y dyfodol.

Mae pwysigrwydd a gwerth rhannu gwersi a gwybodaeth hefyd wedi ei nodi gan rai prosiectau fel deiliant cadarnhaol. Er enghraifft, disgrifiodd Cymdeithas Mânddeiliaid Morgannwg brosiect 'Worms R Us' sut yr oedd y prosiect hwn wedi ategu cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng mânddeiliaid yn y Gymdeithas.

Yr oedd rhai prosiectau yn astudiaethau dichonoldeb - ac nid yw'r llwybr y tu hwnt i'r cyfnod dichonoldeb hwn yn wastad o raid yn glir (fel y trafodir yn yr isadran nesaf). Weithiau, y deiliant oedd peidio â mynd â'r prosiect peilot neu'r syniad ymhellach. Yn ein barn ni, mae hyn yn ddeiliant hollol dderbyniol ac yn un y gellir ei gyfiawnhau. Yr hyn sy'n bwysig mewn achosion o'r fath yw

dysgu o hyn o ran beth allai fod â dyfodol petai'n cael ei wneud yn wahanol neu ar adeg wahanol, neu sylweddoli nad yw'n briodol o gwbl. Unwaith eto, mae'n bwysig rhannu'r wybodaeth hon yn eang fel nad oes gwaith dichonoldeb yn cael ei ddyblygu, ac y gall y gwersi fod yn sail o wybodaeth i brosiectau a rhaglenni yn y dyfodol.

Cynaliadwyedd a Chamau Nesaf

O'r prosiectau a adolygwyd oedd yn gwneud sylwadau am y camau nesaf a chynaliadwyedd:

- 🌱 Yr oedd dau brosiect yn brosiectau dichonoldeb/peilot a ddaeth i'r casgliad nad oedd yn werth/ddichonol mynd ar ôl y cysyniad sylfaenol (pwyntiau gwybodaeth digidol i dwristiaid a Rhwydwaith Gweithgareddau Antur y Fro)
- 🌱 Yr oedd un astudiaeth dichonoldeb (astudiaeth o fwyd lleol yng nghadwyn gyflenwi'r ysgolion lleol) yn gosod allan agwedd i fwrw ymlaen y syniad y rhoddwyd prawf arno. Er na nododd yr adroddiad ei hun a fyddid yn bwrw ymlaen ag ef (adroddiad wedi ei gomisiynu yn allanol ydoedd), noda trafodaethau gyda CGC fod y Cyngor wedi bwrw ymlaen â'r elfennau (gweler prosiect Arlwy Ysgol y Fro a drafodir isod)
- 🌱 Dangosodd pedwar prosiect eu bod yn bwriadu parhau â'r gweithgaredd wedi cyllid LEADER (e.e. cynllun Bentyca Dyfeisiadau Tabled y Fro, Gŵyl Wanwyn Bwyd y Fro)
- 🌱 Yr oedd un prosiect wedi dangos y gall y gweithgareddau a dreialwyd yn awr fod yn hunangynhaliol ac y bydd yn parhau (prosiect Worms R Us Mânddeiliaid Morgannwg)
- 🌱 Rhoddodd un prosiect gynllun gweddol fanwl am sut y bydd y partneriaid yn dal i gydweithio a sut y byddant yn lleadaenu'r canfyddiadau (prosiect Gwneud Synnwyr o Les)
- 🌱 Llwyddodd un prosiect i wneud yr hyn a fwriadwyd ac felly nid oes camau nesaf (Digideiddio – Gwneud y mwyaf o'r archifau)
- 🌱 Nid oes gan un prosiect gyllid i barhau ond dywedodd ei fod wedi dwyn y gwersi i feysydd eraill ei waith, ac nid oes gan brosiect arall gyllid yn syth i barhau ond y mae'n chwilio am arian (Creu Hafoc i Iechyd)
- 🌱 Mae un prosiect peilot wedi ysgrifennu ei ganfyddiadau fel adnodd o becyn cymorth i'w ddefnyddio yn y dyfodol gan eraill (pecyn cymorth Digwyddiadau'r Wyl Ffilmiau)
- 🌱 Nid oedd un prosiect wedi ei gwblhau'n llawn ac nid oedd camau nesaf (Rhannu Defnydd Cegin Fasnachol)

Dengys yr uchod fod cymysgedd o ddeilliannau o ran a oes modd cael cynaliadwyedd yn y tymor hwy trwy'r prosiectau hynny a gefnogwyd trwy LEADER BM. Fel y nodwyd yn gynharach, ni fydd pob prosiect peilot neu ddichonoldeb o raid yn llwyddiannus ac y mae'n amlwg fod gwybod hyn yn glir yn gynnar – ac felly mae angen treialu. Fel y dywedwyd, gwelwn hyn fel deilliant dilys os na cholli'r wybodaeth.

Yn yr un modd, mae rhai storïau cadarnhaol iawn o gynaliadwyedd tymor-hwy a datblygu yn rhai o'r prosiectau a gefnogwyd. Er enghraifft, bu prosiect peilot 'Worms R Us yn ateb/agwedd gost-effeithiol i'r mân-ddeiliaid.

Mae'r Adroddiad Gwaddol a baratowyd gennym ochr yn ochr â gwerthuso canol-tymor BM yn dangos sut y cymer amser i ddatblygiadau lleol dan arweiniad y gymuned symud ymlaen, tyfu a datblygu. Dylai fod yn gadarnhaol felly y gall rhai o'r prosiectau a gefnogir weld parhad at y dyfodol.

Un o'r canfyddiadau allweddol o'r gwaith gwaddol oedd nad oes llinell gyson a syth yn aml o ran y ffordd mae prosiectau yn datblygu. Gallant ddatblygu ar hap, neu mewn ffyrdd gwahanol iawn i'r bwriad gwreiddiol. Mae'r adroddiad gwaddol hefyd yn dangos yn glir werth tîm CGC o ran darparu ffynhonnell gyson o gefnogaeth- gan chwarae rhan allweddol yn aml mewn datblygu parhaus a thu hwnt i gyllid LEADER ei hun. Yr ydym o'r farn felly ei bod yn gadarnhaol fod Cyngor BM yn ddiweddar (Mawrth 2022) wedi cytuno i dalu am dîm datblygu cymunedol newydd yn y Cyngor, gyda rhai o staff CGC yn symud i mewn i'r tîm newydd hwn. Mae'n werth nodi hefyd fod pedwar o'r tîm CGC wedi symud i feysydd gwaith cysylltiedig mewn rhannau eraill o Gyngor BM.

Mae llawer o gof cyfunol LEADER felly yn aros yn y Cyngor. Teimlwn fod hyn yn gyfle da i sicrhau fod gwybodaeth LEADER yn cael ei gadw, ac y cedwir y rhwydwaith eang o gysylltiadau sydd ganddynt er lles y Fro wledig.

Mae trafodaethau pellach gyda CGC ynghylch parhad cynaliadwyedd prosiectau LEADER wedi amlygu'r gwahanol ffyrdd y mae hyn yn digwydd - y tu hwnt i gefnogaeth wreiddiol LEADER. Fel enghreifftiau:




Gwelir y prosiect Mapio Cymunedol gan CRC fel prosiect arweiniol i raglen LEADER, gyda'r pecyn cymorth Mapio Cymunedol yn rhywbeth fydd yn greiddiol i waith y tîm datblygu cymunedol yng Nghyngor BM. Mae cydnabyddiaeth dda i'r prosiect. Mae iddo hefyd swyddogaethau ehangach eraill, e.e., helpu i fwydo i mewn i benderfyniadau am neilltuo cyllid A106. Datblygodd ddull o ymwneud â'r gymuned sy'n werthfawr, ac fe'i defnyddir fel erfyn ymgynghori gan Gyngor BM yn y dyfodol, e.e., fel rhagflaenydd cydgynhyrchu prosiectau, syniadau, etc.



Mae prosiect Masnachol Cymunedau'r Arfordir, a arweiniodd wedyn at gynllun peilot Digwyddiadau Sydyn Bae Dunraven, wedi arwain at drafodaethau ehangach o lawer gyda thirfeddianwyr lleol fel Stâd Dunraven ar brosiectau ehangach yn yr ardal. Felly er na fydd digwyddiadau sydyn yn parhau yn union fel y'u gwelwyd yn y cynllun peilot, fe geir gweithgareddau ehangach yn deillio o'r gwaith hwn, ac y mae iddynt botensial I'w cymhwyso yn y tymor hwy.



Edrychodd prosiect Arlwyio Ysgolion y Fro i mewn i botensial cael mwy o gynnyrch lleol i'r gwasanaeth prydau ysgol yn ardal BM. Bryd hynny, yr oedd arlwyio i ysgolion yn cael ei drosglwyddo i Gwmni Masnachu Awdurdod Lleol. Mae'r wybodaeth a gafwyd o'r gwaith dichonoldeb hwnnw a rhai o'i argymhellion yn cael ei ddefnyddio yn yr hyn a elwir yn 'Gwmni Arlwyio'r Big Fresh'. Yn ogystal ag arlwyio ysgolion, mae 'Big Fresh' hefyd yn darparu gwasanaethau arlwyio ehangach mewn mannau eraill, e.e., ym Mhier Penarth. Mae'r model busnes arloesol wedi caniatáu i beth elw gael ei fuddsoddi'n ôl i ysgolion Bro Morgannwg.




Cafodd Cymdeithas Mânddeiliaid Morgannwg gymorth i ddechrau trwy LEADER i gefnogi grŵp newydd o fândeiliaid i ddod ynghyd i rannu syniadau, arferion a phrofiadau. Derbyniodd y grŵp swm bychan o gymorth ariannol. Ers hynny, mae'r grŵp a'r rhwydwaith wedi tyfu a datblygu - gyda 750+ o bobl yn dilyn ei safle Facebook . Oherwydd Covid , ataliwyd pob gwasanaeth milfeyddgol heb fod yn hanfodol – gan gynnwys profion a thriniaethau ynghylch llyngyr mewn da byw. Gyda help mwy o gefnogaeth LEADER, sefydlodd y grŵp system oedd yn caniatáu i'w aelodau gynnal profion sylfaenol eu hunain – gan uwchlwytho canlyniadau i'w hasesu mewn labordy. Daeth hyn bellach yn hunan-gynhaliol, ac y mae'r system hon yn ateb mwy cost-effeithiol i'r aelodau.

Fel rhan o'r sesiwn GGLI a gynhaliwyd ym Mawrth 2022, fe wnaethom ofyn i aelodau GGLI beth yn eu barn hwy oedd y prif negeseuon i'w rhoi i dair cynulleidfa wahanol o ran yr hyn a ddysgwyd ganddynt o raglen LEADER BM. Dyma'r cynulleidfaoedd hyn:

- 🌱 Y gymuned leol ei hun
- 🌱 Cyngor Bro Morgannwg
- 🌱 Llywodraeth Cymru

Dangosir canlyniad y drafodaeth hon ac y mae'n rhoi mewnwelediad diddorol o aelodau'r GGLI—mae llawer ohonynt wedi ymwneud trwy gydol einioes y rhaglen bresennol.



Hefyd, mae Ash Futures wedi hwyluso gweithdy gydag aelodau GGLI, uwch-swyddogion y Cyngor ac aelodau a rhanddeiliaid eraill ar ddiwedd 2021. Yr oedd y gweithdy hwn yn canolbwyntio ar edrych ar ddewisiadau at y dyfodol i ddatblygu cymunedol ym Mro Morgannwg. Er nad oedd yn canoli'n benodol ar werthuso'r rhaglen bresennol, mae'n

fuddiol ailadrodd yma rai o'r gwersi a'r egwyddorion allweddol oedd yn rhan o'r drafodaeth honno:

Y negeseuon allweddol a roddodd y mynychwyr o ran profiad CGC oedd:

- 🌿 **Mae'r gallu i beilotio syniadau yn bwysig.** Mae gwneud i ffwrdd â'r risg o fethu yn gymhelliant mawr i fod yn arloesol a dysgu o'r broses.
- 🌿 **Mae agwedd o rymuso at weithio gyda chymunedau yn allweddol.** Bu defnyddio'r sgiliau a'r arbenigedd mewn cymunedau a helpu pobl i wneud pethau drostynt eu hunain yn rysâit am lwyddiant.
- 🌿 **Bu presenoldeb y tîm yn hollbwysig.** Mae bod â staff profiadol, gan adeiladu ymddiriedaeth gyda chymunedau a gwybodaeth am sut i wneud pethau wedi adeiladu brand cryf.
- 🌿 **Mae rhywfaint o annibyniaeth o'r Cyngor wedi helpu i adeiladu perthynas.** Mae cyfuniad o'r tîm CGC a'r Grŵp Gweithredu Lleol wedi meithrin ymddiriedaeth a datblygu sgysiau newydd.
- 🌿 **Fe gymer amser i bethau da ddatblygu.** Mae angen ymrwymiad cyson i gael datblygu cymunedol yn iawn.
- 🌿 **Dyluniwch heriau i mewn.** Mae creu syniadau newydd ac adeiladu cymunedau llwyddiannus yn aml yn golygu camu y tu allan i'r lle'r ydych yn gyfforddus a bod yn barod i ddysgu agweddau gwahanol.
- 🌿 **Mae arian yn helpu.** Mae peth arian i helpu cymunedau i gychwyn pethau yn annog cyflwyno ac adeiladu perthynas

Fel y buasech yn disgwyl, mae'r adborth hwn am y gweithdy oedd yn canoli ar y 'dyfodol' yn gyson yn fras a'r hyn a roddwyd yn y sesiwn GGLI yn gynharach eleni. Yn bwysig, mae'n gyson hefyd â llawer o'r casgliadau a ddeilliodd o'n hymgyngori (i'r gwerthuso canol-tymor a therfynol) a thrafodaethau gyda phrosiectau a gefnogwyd (gan gynnwys y rhai a gefnogwyd trwy raglenni blaenorol).

Yn ein barn ni, maent yn adlewyrchu'r egwyddorion a'r gwersi pwysig a ddysgwyd o'r rhaglen.

Mae a wnelo un pwynt penodol pellach i'w godi o ran y gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen â'r GGLI. Y consensws cyffredinol yn ein hymgyngoriadau yw bod ceisio cynnal GGLI (neu swyddogaeth debyg) o 20+ o aelodau - y rhan fwyaf ohonynt yn rhoi eu hamser o'u gwirfodd - yn afrealistig ac yn arwain mewn gwirionedd at fforwm trwsgrl a rhy fawr. Cymhlethir hyn ymhellach gan fynnu presenoldeb ar draws tri gwahanol 'fath' o fynychwr (cyhoeddus, preifat, trydydd sector). Buasem yn cytuno â'r farn hon. Os am gael math tebyg o swyddogaeth/corff ymgyngori sy'n canoli ar y gymuned yn y dyfodol, rhaid iddo fod yn llai, yn fwy ystwyth a chanoli mwy ar dasgau.

9. CASGLIADAU

Bu'r gwerthuso terfynol hwn yn ddarn cymharol gryno gyda chanolbwynt, yn adeiladu ar y gweithgaredd mwy sylweddol fu'n sail i'r gwerthuso canol-tymor. Mae'n ymdrin â chyfnod fu'n unigryw ac anarferol iawn –pandemig Covid. Fel gyda phob agwedd arall o fywyd, bron, effeithiwyd ar raglen LEADER BM. Bu'n rhaid dod o hyd i ffyrdd newydd o weithio, bu'n rhaid i brosiectau addasu i'w dulliau o weithio gyda'r gymuned, ac ailgyfeiriwyd adnoddau i ymateb i'r pandemig.

Yr oedd rhaglen BM wedi elwa o fod eisoes yn rhaglen a reolwyd yn dda, yn yr ystyr eu bod eisoes wedi neilltuo'r rhan fwyaf o i gyllideb y rhaglen a bod yna ystod eang eisoes o brosiectau a gefnogwyd oedd yn cyflwyno ar draws y gymuned. Bu'r 2 flynedd ddiwethaf yn fater o 'gadw'r olwynion yn troi' a rhoi cefnogaeth lle mae ei angen o hyd. Gwnaeth hyn yn llwyddiannus.

Yn gyffredinol, nid yw'r canfyddiadau allweddol a amlinellwyd yn y gwerthuso canol-tymor wedi newid. Mae rhaglen BM wedi ei rhedeg a'i rheoli'n dda, gyda thîm CGC yn rhan sylfaenol o'i llwyddiant. Fe'u cefnogwyd gan GGLI a fu'n ymwneud a chorff atebol cefnogol - Cyngor BM. Yn ein barn ni, bu'n berthynas dda a chynhyrchiol.

Mae'r rhaglen wedi cefnogi ystod o brosiectau diddorol, a chafwyd gwedd weddol agored at gymryd agwedd arloesol at roi prawf ar atebion posib yn erbyn rhai problemau sydd wedi wynebu cymunedau gwledig ledled y Fro. Mae rhai o'r rhain wedi gweithio ac wedi arwain at weithgaredd cyson, tra bod eraill heb weithio cystal. Mae hyn i'w ddisgwyl. Y peth pwysig yw bod gwersi a gwybodaeth yn cael eu cadw fel sail i weithgareddau yn y dyfodol. Gyda rhaglen LEADER yn dod i ben, roedd perygl y gallai'r wybodaeth fynd ar goll - gan danseilio'r gwaddol ac effaith y rhaglen. Mae'r penderfyniad diweddar gan y Cyngor i greu swyddogaeth datblygu cymunedol - ac, yn bwysig iawn, gan gadw rhai o staff allweddol CGC - yn ei gwneud yn fwy tebygol y gall y wybodaeth hon gael ei gadw ac o bosib ei ddefnyddio mewn gwahanol gyd-destunau.

Nid yw dyfodol y GGLI y tu hwnt i'r rhaglen mor glir. Yr ydym yn cydnabod fod angen pwrpas i gynnal y fath gorff/swyddogaeth cynghori. Byddai diffyg unrhyw bwrpas penodol neu gylch gorchwyl yn tansilio ei ddefnyddioldeb. Yn yr un modd, teimlwn ei bod yn bwysig cydnabod fod gwybodaeth a phrofiad pwysig yn y GGLI ac y byddai cadw yn fuddiol i weithgareddau yn y dyfodol - naill ai'n benodol yn y Fro wledig neu'n ehangach. Gallai defnyddio gwybodaeth rhai o aelodau GGLI (os ydynt yn barod) fod yn llesol mewn rhai gweithgareddau datblygu cymunedol yn y dyfodol.

O ran effaith y rhaglen, mae hyn yn wastad yn anodd i'w fynegi mewn unrhyw ddull mesuradwy. Bu llawer o effaith y rhaglen mewn agweddau sy'n anodd eu dal mewn unrhyw ystyr mesuradwy. Gall mwy o ymdeimlad o berchenogaeth gymunedol, cydlyn, ymdeimlad o le, etc. fod yn bwysig ond yn anodd eu mynegi. Er hynny, maent yn sylfaenol bwysig. Erys y farn gyffredinol fod y cyfyngiad yn y rhaglen gyfredol o fethu cefnogi busnesau yn uniongyrchol wedi cyfyngu ar agweddau economaidd y rhaglen. Er hynny - fel y mynegwyd yn y gwerthuso canol-tymor - fe wnaeth y rhaglen a'r tîm CGC ddatblygu ystod o agweddau diddorol i geisio helpu busnesau mewn dull mwy anuniongyrchol.

Yn olaf, bu'r rhaglen yn llwyddiannus o ran cyrraedd y targedau oedd yn y contract - boed y rheiny yn ddangosyddion ariannol neu berfformiad. Mae'r olaf hwn yn cynrychioli graddfa'r gweithgareddau a gefnogwyd trwy'r rhaglen. Bu'r adborth o'r adroddiadau cau prosiectau yn bwysig hefyd i esbonio sut y gallai symiau cymharol fychan o gymorth ariannol - ac a gefnogwyd gan CGC- fynd yn bell iawn. Mewn llawer achos, mae hyn bellach wedi arwain at weithgaredd hunangynhaliol a chyson wedi'i sbarduno yn uniongyrchol gan y gymuned - gwir waddol y rhaglen.

Comisiynu a Gaffaelwyd	Gwariant terfynol RhDGC neu a wariwyd hyd yma (£ grant RhDGC)	Statws	Thema RhDGC	Is-Thema/ Amcan SDLI	Blaenoriaeth SDLI
Cymunedau Arfordirol – Astudiaeth Dichonoldeb cyfleoedd masnachol Astudiaeth i bennu'r cyfleoedd masnachol, gweithgareddau awyr agored a digwyddiadau hyfyw i wella datblygiad busnes a chyflogaeth ar Arfordir Treftadaeth Morgannwg.	15,486		1	1A, (1B)	BL1
Mapio Cymunedol Prosiect peilot yn ymchwilio i ffyrdd newydd o gyflwyno gwasanaethau anstatudol mewn cymunedau gwledig trwy ddwyn cymunedau i mewn i fapio'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ganddynt a nodi bylchau. Yr oedd tair cymuned yn rhan o hyn, oll yn ardaloedd lle'r oedd mwy o dai ar y gweill (Sain Tathan, Rhŵs a Gwenfo). Mae'r pecyn cymorth a ddatblygwyd o'r cynllun peilot wedi ei ddefnyddio'n helaeth ers hyn yn y Fro wledig.	7,245		3, 5	3A	BL3,
Cynllun Peilot Digwyddiadau Sydyn Bae Dunraven Yn dilyn o'r Astudiaeth Dichonoldeb Masnachol, cafwyd cynllun peilot o gyfres o ddigwyddiadau, i roi prawf ar hyfywedd digwyddiadau yn y lleoliad hwn. Yr oedd hyn yn rhoi prawf ar y galw o du ymwelwyr i fynychu a pharodrwydd trefnwyr digwyddiadau i'w cynnal mewn lleoliad mor wledig. Arweiniodd at becyn cymorth digwyddiadau sydyn i'w defnyddio yn y dyfodol	15,004		1	1A, (1B)	BL1
Ymweliadau Ieuenctid ac Ysgolion Datblygu adnoddau i annog ymwelwyr iau, grwpiau teulu a grwpiau ysgol i ymweld â lleoliadau yn y Fro wledig. Gweithiodd y prosiect gyda darparwyr gweithgareddau ac atyniadau yn y Fro i ddatblygu dewis o deithiau gydag adnoddau priodol ac wedi eu marchnata dan faner 'Teithiau Ysgol y Fro' gan y tîm twristiaeth yng Nghyngor Bro Morgannwg	12,737		1	1B	BL1

<p>Pwyntiau Gwybodaeth Digidol i Dwristiaid ac Incwm o Argraffu</p> <p>Prosiect peilot yn edrych ar ffyrdd arloesol i fudiadau gynhyrchu taliadau am gynnyrch print i ymwelwyr, sy'n lleihau dibyniaeth ar grantiau a thalu am gost deunydd wedi'i argraffu. Mae'n cynnig cyfle i ymwelwyr roi rhodd i dalu am gynnyrch print megis mapiau a theithiau, a chynnig dewis hefyd i lawrlwytho'r ffeil i ddyfais y defnyddiwr. Yr oedd wyth darparwr twristiaeth yn rhan o'r cynllun peilot hwn.</p>	12,906		3, 5	3Ai, (5C)	BL3, BL1, BL4
<p>PAWs yn y Fro – Twristiaeth Cyfeillgar i Gŵn</p> <p>Prosiect peilot yn rhoi prawf ar agweddau cadarnhaol a negyddol cymuned yn dod yn gyfeillgar i gŵn. Yr oedd y prosiect yn hyrwyddo llety, bwytai, atyniadau teithiau a busnesau eraill cyfeillgar i gŵn ym Mro Morgannwg wledig.</p>	24,678		1	1A	BL1
<p>Dathlu Sant Illtud</p> <p>Ymchwilio i ffyrdd o dathlu Illtud Sant, rhannu arferion gorau, datblygu cysylltiadau a phartneriaethau, gyda golwg ar roi Llanilltud Fawr ar lwyfan diddordeb ehangach</p>	890		1	1B	BL1
<p>Blwyddyn</p> <p>Mae Ymweld â Chymru yn rhedeg blynyddoedd thematig (e.e. Blwyddyn y Môr, Blwyddyn Ddarganfod) a gweithiodd y prosiect peilot hwn gyda busnesau twristiaeth i'w gwneud yn ymwybodol o thema'r flwyddyn a sut i fanteisio ar hyn. Arweiniodd at ddau brosiect lleol - Gŵyl y Môr a Gŵyl Ffilmiau'r Fro (dan y pennawd: Blwyddyn y Chwedlau).</p>	652		1	1B	BL1
<p>Rhwydwaith Gwneuthurwyr Crefft</p> <p>Prosiect peilot i artistiaid/crefftwyr i rwydweithio a chydweithio, ymchwilio i gyfleoedd gwerthu arloesol ac ymchwilio i ddatblygu manau gwaith newydd. Mae'r prosiect hwn yn adeiladau ar brosiectau crefft mewn rhaglenni LEADER cynharach a'r awydd i ddatblygu llwyfan cyffredin i gydweithio.</p>	288		2	2C	BL1, BL3
<p>Ysbryd Cymunedol</p> <p>Prosiect rhwydweithio a ddatblygodd o'r prosiect Mapio Cymunedol, lle mae cymunedau yn y Fro wledig yn dysgu gan ei gilydd am weithgareddau / mentrau, a all helpu i ddatblygu a hyrwyddo ysbryd cymunedol. Mae a wnelo'r elfen hon â chostau craidd i hwyluso'r prosiect.</p>	852		3	3C	BL3

Gweithgareddau Rhiant a Phlentyn Ynghyd Yn Ilifo o'r prosiect Mapio Cymunedol, yr oedd hyn yn peilotio cyfres o weithgareddau i rieni a phlant i wneud gyda'i gilydd mewn lleoliadau cymunedol yn Sain Tathan, Gwenfo, y Rhŵs ac Ystradowen, i gwrdd ag anghenion a nodwyd trwy fapio cymunedol.	7,060		3	3C	BL3
Hen Adeiladau Gwledig Ymchwilio i gyfleoedd i ddatblygu gofodau gwaith o hen adeiladau a rhai a danddefnyddiwyd yn y Fro wledig, ac asesu'r galw am wahanol fathau o ofodau gwaith	4,762		2	2B	BL2
Digwyddiad Bwyd y Fro Digwyddiad gan Bartneriaeth Bwyd y Fro yn cynnig cyfleoedd i gyfrannu at weledigaeth y bartneriaeth fwyd, clywed am fentrau bwyd a rhwydweithio gyda rhanddeiliaid bwyd ledled y Fro.	1,230		2	2C	BL1, BL3
Her Ysgolion Gwyrdd Prosiect peilot i herio ysgolion i ystyried ynni gwyrdd ac arbed ynni trwy 'bythefnos diffodd' – gweithgaredd am ddim a hwyluswyd.	2,188		4	4A, (4C)	BL3
Cegin Fasnachol Ymchwilio i gysyniad cegin fasnachol yn y Fro wledig, fyddai â chyfarpar fel cegin i'w llogi gan gynhyrchwyr oedd angen lle mwy i weithio, ar sail ad hoc. Fodd bynnag, ni aeth y prosiect hwn yn ei flaen gan i'r partner cymuned dynnu'n ôl.	643		2	2C	BL1, BL3
Digwyddiad Ynni Gwyrdd Cymunedol Digwyddiad i arddangos amrywiaeth yr asiantaethau cefnogi i ynni adnewyddol cymunedol, ac i ddangos enghreifftiau o brosiectau cymunedol. Ymysg y rhai oedd yn bresennol yr oedd cynrychiolwyr a thrigolion y Fro wledig	2,721		4	4A	BL3
Astudiaeth Dichonoldeb Marchnad Da Byw Astudiaeth dichonoldeb i ganfod anghenion ffermwyr lleol a phennu a oes angen marchnad dda byw amlbwrpas hyfyw yn yr ardal. Daeth i'r casgliad y byddau cyfleuster marchnad newydd yn helpu ffermwyr i arallgyfeirio ac ychwanegu gwerth at eu cynhyrchion trwy ddarparu cyfleusterau ar y cyd megis torri cig a mynediad at storfeydd oer.	30,000		2	2B	BL2

Ymchwil Busnes i Fusnes Ymchwilio i'r hyn a gynigir fel cefnogaeth BiF ym Mro Morgannwg, lle'r aiff busnesau am gefnogaeth a beth mae arnynt angen o hyn. Cyfle i greu catalog / presenoldeb arlein i fusnesau sy'n dangos y gefnogaeth BiF sydd ar gael.	798		2	2A	BL2, BL4
Cymdeithas Hanes y Bontfaen – Manteisio ar yr archifau Ymchwilio i'r ffyrdd gorau o ddarparu mynediad i'r cyhoedd at archifau hanesyddol yn y Bontfaen, gan edrych ar amrywiaeth o ddewisiadau ar-lein a goresgyn pryderon megis hawlfraint, hygyrchedd a chost.	0*		5	5B	BL3, BL4
Agora - cadwyni cyflenwi gwledig Cymerodd y Fro Wledig ran mewn grŵp thema bwyd ledled de-ddwyrain Cymru oedd yn edrych i mewn i ffyrdd o fyrhau cadwyni cyflenwi bwyd, a gyllidwyd trwy brif raglen RhDGC. Neilltuodd rhaglen GGLI BM swm penodol o LEADER i gynnal gweithgareddau ychwanegol penodol yn y Fro Wledig cysylltiedig â hyn. Fe'i defnyddiwyd i dalu am ddigwyddiad rhwydweithio i bob prosiect cysylltiedig â bwyd	315		2	2C	BL1, BL3
Gŵyl y Môr - astudiaeth dichonoldeb i ddigwyddiadau a gweithgareddau arfordirol Prosiect peilot mewn dwy ran: i ddechrau, astudiaeth dichonoldeb i'r potensial am weithgareddau antur ar hyd yr arfordir treftadaeth (gan adeiladu ar astudiaethau cynharach oedd yn amlygu cyfleoedd masnachol ar hyd yr arfordir); ac yna digwyddiad arddangos ym Mehefin 2019, oedd yn gyfle i bobl drïo'u llaw ar wahanol weithgareddau awyr agored, e.e. gwibio ger yr arfordir.	29,200		1	1A	BL1
Gŵyl Ffilmiau'r Fro Prosiect peilot oedd am wneud y mwyaf o'r ffilmio sy'n digwydd yn aml yn y Fro wledig e.e. trywydd Doctor Who, yn ogystal â chefnogi'r syniad o ddatblygu economi gyda'r nos. Ceisiodd y prosiect helpu pobl i ddeall beth allant hwy wneud i ddathlu ffilm yn eu hardal	9,159		1	1B	BL1
Seiclo yn y Fro Astudiaeth dichonoldeb ar y potensial am ddatblygu seiclo yn y Fro wledig. Prif gasgliad yr astudiaeth oedd bod marchnad bosib i seiclwyr ffordd, ond fawr ddim oddi ar y ffordd. Wedi hynny, gwnaed gwaith i ymchwilio i ddatblygu rhai llwybrau Beics y Fro, gan becynnu beicio gyda llefydd i fwya ac aros.	38		1	1C	BL1, BL4

Lleoliadau Digidol Cymunedol Prosiect peilot i dreialu rhai systemau archebu arlein i fentrau cymunedol i helpu i oresgyn problemau archebu. Mae dau leoliad cymunedol yn rhan o'r peilot cychwynnol, yn Llanilltud Fawr a Llandŵ tra bod trafodaethau hefyd yn digwydd i ddau leoliad arall gymryd rhan. Estynnwyd y prosiect yn ystod y cyfnod clo, ac ymunodd dau grŵp neuadd bentref arall â'r treial	13,200		5	5B	BL3, BL4
Gŵyl Gwneuthurwyr Crefft Datblygwyd hyn o'r Rhwydwaith Crefft. Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau crefft fel cynllun peilot yn ystod Medi 2019. Cafwyd penwythnos y brif ŵyl ar 21-22 Medi, gyda chyfres o ddisbarthiadau meistr a stiwdios agored ar draws y Fro wledig cynt ac wedyn. Cafwyd teithiau astudio hefyd, a datblygwyd pecyn cymorth.	9,599		1	1B	BL1
Arlwyo Ysgolion y Fro Edrych i mewn i ddichonoldeb caffael cynnyrch lleol i ginio ysgol ym Mro Morgannwg ac y gellid ei weithredu gan gwmni arlwyio masnachol a grëwyd gan yr Awdurdod Lleol.	11,200		2	2C	BL1, BL3
Sgiliau Digidol y Fro Deilliodd hyn o ymchwil busnes i fusnes a amlygodd angen am gynyddu sgiliau. Cynhyrwyd cyfres o gyrsiau hyfforddi i ymdrin ag ystod eang o bynciau i unigolion a chyrrff y trydydd sector. Maent yn amrywio o gyrsiau diogelwch arlein i rieni, i ddylunio gwefannau ac e-fasnach. Mae rhai yn gyrsiau diwrnod, hanner diwrnod a gyda'r nos - i roi prawf er mwyn gweld pa ddewisiadau sydd fwyaf defnyddiol i fynychwyr posib.	11,928		5	5B, (5D)	BL1, BL3, BL4
Pecyn Cymorth Busnesau Twristiaeth Datblygu 'Pecyn Cymorth Twristiaeth' arlein, adnodd sy'n ateb pob cwestiwn, neu lle bo hynny'n briodol, cyfeirio busnesau sy'n delio â thwristiaid at lwyfannau a mudiadau priodol i ateb eu hymholiadau. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod cyngor a gwybodaeth gyson yn cael ei roi i fusnesau, ac y mae hefyd yn helpu i oresgyn yr angen am ddal ati i ymateb i gwestiynau busnes tebyg, gan ryddhau gweithwyr cefnogi busnes i wneud gweithgareddau cefnogi busnes eraill.	8,165		1, 2	(1D), 2A	BL2, BL4, BL5

<p>Rhwydwaith Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored</p> <p>Prosiect peilot i ddatblygu rhwydwaith i ddwyn ynghyd ddarparwyr gweithgareddau awyr agored yn y Fro Wledig, yn dilyn argymhelliad allweddol mewn astudiaeth dichonoldeb cynharach am gyfleoedd i ddatblygu gweithgareddau awyr agored ar hyd arfordir y Fro Wledig (Gŵyl Y Môr). Datblygodd y prosiect weledigaeth a chenhadaeth i'r rhwydwaith, safle arlein i aelodau draffod, a chynnal cyfarfodydd awyr agored wyneb yn wyneb – er nad oedd digon o ddarparwyr yn cymryd rhan i sefydlu rhwydwaith fel y cyfryw bryd hynny.</p>	2,000		1	1C	BL1, BL4
<p>Mapio Cymunedol 2021/Tlodi Bwyd</p> <p>Prosiect mewn dwy ran – yn gyntaf i wneud mwy o fapio cymunedol yn ystod y pandemig i helpu cymunedau i ail-asesu eu hasedau a'r gwasanaethau oedd eu hangen i adfer wedi Covid a helpu i adeiladu cymunedau gwydn at y dyfodol. Yn ail, astudiaeth benodol yn Llanilltud Fawr - 'Pryd Da i Bawb, Bob Dydd' – oedd yn edrych ar bynciau tlodi bwyd, eto gyda golwg ar adfer wedi Covid.</p>	5,880		3	3D (5E)	BL5

Grant	Gwariant terfynol RhDGC neu a wariwyd hyd yma (£ grant RhDGC)	Statws	Thema RhDGC	Is-Thema/ Amcan SDLI	Blaenori aeth SDLI
<p>Rhwydwaith Mânddeiliaid Morgannwg</p> <p>Cefnogi grŵp newydd o fân-ddeiliaid i ddod ynghyd i rannu syniadau, arferion a phrofiadau. Yr oedd hyn yn golygu cynnal cyfarfodydd rheolaidd am gyfnod cychwynnol o chwe mis gyda siaradwyr gwadd a rhannu cyfleoedd marchnata i hyrwyddo cynhyrchion y Fro wledig, cefn gwlad a gweithgareddau</p>	764		2	2C	BL1, BL3

Gwneud synnwyr o les Peilotio ystod o weithgareddau /gwasanaethau lles i gynnal sgiliau digidol a chyflogadwyedd. Mae hyn wedi cynnwys sesiynau ffitrwydd hwyl holistig i ferched yn unig, Her Fitbit gyda myfyrwyr ysgol, a Gwersi Cychwyn Coginio gyda rhieni a phlant, wedi'u targedu at gymunedau Sain Tathan, Llanmaes a Llanilltud Fawr	6,019		3	3C	BL3
Creu Hafoc gydag Iechyd Prosiect peilot i gefnogi pobl a phroblemau iechyd meddwl ym Mro Morgannwg wledig fu'n anodd eu cyrraedd trwy hwyluso ystod o weithgareddau gan gynnwys celf, drama, ysgrifennu creadigol, gweithdai ffotograffiaeth a chrefft.	6,277		3	3C	BL3
Prosiect Coeden Ffawyddden Twt Prosiect i ymchwilio i ôl-fywyd coeden arwyddocaol a gwmpwyd yn y Bontfaen. Bydd y prosiect yn dogfennu cyfres o weithiau a wnaed o goed, ac yn rhedeg gweithdai i rannu sgiliau gwaith coed gwyrdd a chrefftau gan ddefnyddio coed. Bydd y prosiect yn dod i binacl gydag arddangosfa o waith, a phegyn cymorth.	10,550		1	1B	BL1
Menter Gydweithredol Bwyd y Bontfaen – marchnad arlein Datblygu gwasanaeth cyn-archebu arlein i drigolion y Fro i brynu bwyd gan gynhyrchwyr lleol a chasglu yn ystod cyfarfod wythnosol yn Ysgol Gyfun y Bontfaen. Mae'r cynnyrch yn cael ei wneud i gyfateb ag archebion fel nad oes gwastraff, ac y mae'r defnyddwyr yn gwybod beth y gallant brynu a'r hyn a wariwyd ganddynt cyn ei gasglu. Yr oedd yn arbennig o werthfawr yn ystod y cyfnod clo	5,274		2, 5	2C, (5D)	BL1, BL4
Cynllun Benthycia Dyfeisiadau Tabled y Fro Cynnig i roi cyfle i fenthycia dyfeisiadau tabled o lyfrgelloedd gwledig ledled y Fro. Ehangodd ei ddefnydd yn fawr dros y cyfnod clo	5,829		5	5B	BL3, BL4
Clybiau Ieuenctid dan Arweiniad Gwirfoddol Mae'r prosiect hwn yn treialu agwedd newydd at ddarpariaeth ieuenctid trwy weithio gyda chymunedau gwledig yn y Fro. Bydd y prosiect yn golygu hyfforddi gwirfoddolwyr lleol i ddatblygu sesiynau gwaith ieuenctid 'mynediad agored' i bobl ifanc rhwng 11 a 18 oed. Gweithiodd i ddechrau yn Nhregolwyn a'r Wig.	27,900		3	3C	BL3

Ysbryd Cymunedol Prosiect rhwydweithio a ddatblygwyd o'r prosiect Mapio Cymunedol, lle mae cymunedau yn y Fro wledig yn dysgu oddi wrth ei gilydd am weithgareddau / mentrau a all helpu i ddatblygu a hyrwyddo ysbryd cymunedol. Cefnogwyd pedair cymuned yn ariannol i beilotio digwyddiadau newydd yn y gymuned (Sain Tathan, Pendaulwyn, Llanbedr y Fro, Sant Hilari)	4,661 (swm wedi'i gydgrynhoi)		3	3C	BL3
Digartrefedd a Sgowtio (rhan o Wyl Ffilmiau'r Fro 2019) Roedd dwy ran i'r prosiect hwn: (1) canoli ar hanes Robert Baden Powell, sylfaenydd y mudiad sgwtio a'r geidiaid, fel y'i hadroddwyd gan ei wyres sy'n byw ym Mro Morgannwg. (2) canoli ar werthwyr y Big Issue yn y Fro gyda ffilmiau byr yn adrodd eu storïau ac a ddangoswyd yn yr Wyl Ffilmiau, gan helpu i ddwyn pobl yr ymylon i mewn i'r digwyddiad.	4,439		3	3C	BL3
A month in the Country (rhan o Wyl Ffilmiau'r Fro 2019) Y prosiect hwn oedd dangos y ffilm 'A month in the Country' yn Eglwys Sant Cadog, gan droi'r eglwys yn 'balas lluniau dros dro' ac ar yr un pryd godi proffil murluniau hanesyddol a ddarganfuwyd yn ddiweddar yn Sant Cadog i ymwelwyr.	1,696		3	3C	BL3
Sant Hilari Film Festival (rhan o Wyl Ffilmiau'r Fro 2019) Cynhaliwyd dau ddigwyddiad: (1) noson Bollywood yn neuadd Sant Hilari, oedd yn ymgorffori trafodaeth ynghylch creu Bollywood yn ne Cymru, sesiwn ddawns, a bwyd. (2) ffilmiau di-lais gyda cherddoriaeth byw, yn Eglwys Sant Hilari a chan gynnwys dosbarth meistr cerddoriaeth i blant.	898		3	3C	BL3
Jurassic Coast (rhan o 2019 Wyl Ffilmiau'r Fro) Cyfres o bedwar gweithdy creu ffilmiau oedd yn ymchwilio i forlin Jwrasig Bro Morgannwg a gafodd eu dangos ochr yn ochr â ffilm ar thema deinosoriaid, ac ar yr un pryd, ddysgu sgiliau gwneud ffilm ac animeiddio.	4,409		3	3C	BL3
The Village (rhan o 2019 Wyl Ffilmiau'r Fro) Digwyddiadau ffilm a gynhaliwyd yn (a) Pentref Llyn Comeston yn dangos nifer o ffilmiau wedi eu hanelu at blant ac oedolion; a (b) Amgueddfa Awyrennau De Orllewin Lloegr yn Sain Tathan, yn benodol hangar Aerotech a sgrinio 'Apocalypse Now'.	1,182		3	3C	BL3

Adeiladu Adref (cyfeiriwyd o fenter Arwyr y Fro) Prosiect a redwyd gan Pinkspiration gyda'r RSPB, oedd yn darparu blychau nythu a wnaed gartref i adar i gymunedau yn y Fro Wledig yn ystod y cyfnod clo. Adeiladwyd y citiau blychau nythu gan fyfyrwyr Coleg Gwent, felly roedd hyn yn rhoi cyfleoedd i ddysgu a hyfforddi.	664		3	(3C) 3D	BL3
Worms R Us (cyfeiriwyd o fenter Arwyr y Fro) Effeithiodd Covid-19 ar wasanaethau milfeddygon nad oeddent yn hanfodol, ac yr oedd yn anodd i fân-ddeiliaid gyrchu profion a thriniaethau am heintiadau llyngyr yn eu da byw. Rhoddodd y prosiect brawf ar system oedd yn caniatáu i fân-ddeiliaid gynnal eu profion eu hunain ac uwchlwytho'r rhain i labordy i'w dadansoddi, gan roi'r canlyniadau yn ôl i'r deiliad.	1,490		2	2F	BL5, BL2
Olwynion ar Waith Prosiect i osod uned swyddfa symudol sydd hefyd yn cynnig llety, man cyfarfod ac arosfan cysur i Fân-ddeiliaid Morgannwg. Y cynnig yw carafán fechan ail-law gyda chyfrifiadur, argraffydd a chysylltedd band eang, fel y gallai mân-ddeiliaid fynd arlein a chyrchu argraffydd mewn lle tawel, glân.	4,615**		2	2B (2D)	BL2
Gwefan Bwyd y Fro a rhwydwaith digidol Datblygu a lansio gwefan/llwyfan digidol unswydd i gefnogi datblygu rhwydwaith i'r Fro fydd yn canolbwyntio ar fusnesau a gweithgareddau bwyd. Y bwriad oedd i'r wefan fod yn storfa gwybodaeth a hyrwyddo, ynghyd â chyfleoedd i fusnesau bwyd arddangos eu cynnyrch.	5,000		2, 5	2C (5D)	BL1, BL3, BL4
Gŵyl Wanwyn Bwyd y Fro Ataliodd Covid-19 lansio brand Bwyd y Fro. Datblygodd y prosiect hwn ŵyl arlein i helpu i hyrwyddo adnabod brandiau Bwyd y Fro ac adeiladu cynulleidfa arlein – fel sylfaen i ddigwyddiadau wyneb-yn-wyneb yn y dyfodol. Roedd yn adeiladu ar argymhelliad adroddiad blaenorol o 'Wneud Synnwyr o Fwyd' yn 2018. Yr oedd yr ŵyl yn cynnwys 'coginio i'r teulu', fideos ar dyfu cymunedol a thrafodaethau 'Meddwl yn Fyd-eang Bwyta'n Lleol' arlein.	6,500**		2	2C	BL1, BL3

Atodiad 1: Rhestr o brosiectau a gefnogwyd fel ar Ragfyr 2021

**Neilltuwyd grant RhDGC

Dim gwariant, ond gwblhawyd y prosiect gan wirfoddolwyr. Dyrannwyd £1,000 o grant cychwynnol